Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-2022

Swyddfa Gofrestredig

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
3 Sgwâr y Cynulliad, Bae Caerdydd
CF10 4PL

Ffôn: +44 (0)29 2046 7030
E-bost: helo@hwbgbcymru.com

Cynnwys

Adroddiad strategol

Datganiad y Cadeirydd 4

Crynodeb y Prif Weithredwr 6

Amdanom ni 8
- Pwy ydyn ni
- Sut rydyn ni'n gweithio
- Yr eco-system

Uchafbwyntiau Cyflawni 11
- Perfformiad
- Cynnull partneriaid
- Trefnu'r system
- Cyflymu cyfleoedd
- Llunio'r dyfodol
- EIDC
- Cyflymu

Edrych ymlaen 24

Llywodraethu

Llywodraethu ac atebolrwydd 28

Cyfrifon ariannol

Cyfrifon ariannol 42

Datganiad y Cadeirydd

Helo, a chroeso i'r adroddiad blynyddol eleni.

Pleser a braint oedd cael fy mhenodi fel Cadeirydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru eleni ar adeg anhygoel i'n sector. Yn 2021/22 fe wnaeth ein sefydliad barhau i addasu i ystod o gyfleoedd a heriau a deimlwyd ar draws y diwydiant. Mae'r adroddiad eleni yn brawf o sut mae ein tîm wedi parhau i feddwl yn wahanol ac wedi meithrin partneriaethau ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a diwydiant gyda syniadau arloesol ac addasu yn wyneb newid trawsnewidiol y mae dirfawr ei angen.

Mae natur gwyddorau bywyd yn golygu bod gweithio o'i fewn yn ddeinamig iawn – rydym yn cefnogi arloeswyr sydd ar flaen y gad yn eu priod feysydd i greu cynhyrchion, gwasanaethau a ffyrdd blaengar o weithio sydd o fudd i iechyd, gofal a llesiant. Ond er bod rhai o'r prosiectau a'r rhaglenni a gefnogwn yn datblygu'n gyflym, mae pethau cyson pwysig wastad yn parhau, fel anelu am ragoriaeth, bod yn hyblyg, yn ymatebol a darparu gwerth am arian. Dyna sy'n gwneud mudiad fel ein un ni, yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy, i sicrhau bod ein hallbynnau a'n heffaith yn addas nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn dal i deimlo effaith Covid-19 ar draws ein busnes a'n bywydau. Roedd 2020 yn ymwneud â'n hymateb cychwynnol, tra bod eleni wedi ein gweld yn derbyn ei bresenoldeb parhaus ac yn addasu iddo, ochr yn ochr â chymryd gwersi allweddol a'u cymhwyso i'n strategaeth a'n hagwedd sefydliadol. Rydw i wedi gweld gyda'n llygaid fy hun, nid yn unig wrth ein staff, ond ein holl bartneriaid, yr awydd i wneud pethau'n wahanol gydag ystwythder a chydweithio yn ganolog i hynny.

Nid ni yw'r unig sefydliad sy'n meddwl am sut gallwn ddefnyddio gwersi o'r fath, gyda 'Gweledigaeth Gwyddorau Bywyd' Llywodraeth Cymru (2021) yn manylu ar sut gallwn adeiladu ar lwyddiannau gwyddonol a ffyrdd o weithio yn sgil Covid-19 i fynd i'r afael â heriau clefydau yn y dyfodol.

Mae'r ddogfen hon hefyd yn amlygu pwysigrwydd gofal iechyd ataliol a gwaith ymyrraeth gynnar, sy'n feysydd allweddol o ran arloesi mewn gwyddorau bywyd rydym wedi'u blaenoriaethu eleni ac wedi'u rhoi wrth wraidd ein cynllun busnes nesaf. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid ar draws y DU fel yr Adran Masnach Ryngwladol i alinio ein hagweddau at arloesi ymhellach ac i sicrhau bod gan Gymru le wrth y bwrdd i ddatblygu'r weledigaeth feiddgar hon.

Yng Nghymru, cafwyd ffocws polisi hefyd ar ofal iechyd ataliol. Mae cynllun y Rhaglen Lywodraethu (2021) yn manylu ar sut gellir ei defnyddio i greu cymdeithas decach ac iachach i bawb, gan adeiladu ar y dull a nodir yn 'Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' (2015). Mae polisi o'r fath yn cyd-fynd â'n nodau craidd fel sefydliad, ac mae ein tîm wedi treulio 2021/22 yn gweithio tuag at hyn mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill ar draws Cymru i ysgogi newid system o'r fath.

Croesawodd y DU COP26 eleni hefyd, gan roi'r ddadl ynglŷn â sut gallwn gyrraedd sero net ar frig yr agenda. Er y gall llywodraethau ei chael hi'n anodd cytuno ar strategaeth, mae'n gliriach nag erioed y gall gweithredu dinasyddion – sy'n cynnwys sefydliadau fel ein un ni – greu newid.

Yn 2021, rydym wedi parhau i gefnogi hyn o ran y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes a sut gallwn annog dull carbon isel, cynaliadwy mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn falch o fod wedi cydlynu a chefnogi amrywiaeth o brosiectau, fel cynlluniau peilot a gwerthusiadau o wasanaeth atebion digidol sy'n caniatáu gofal yn agosach at gartref ac i fonitro cleifion o bell.

> Gall gwaith fel hyn helpu i wella canlyniadau i gleifion a gwneud arbedion o ran cost – gan helpu i greu cymdeithas sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac sydd o fudd i les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Rydym wedi cryfhau ein bwrdd eleni, gyda Victoria Bates, Erica Cassin, Yr Athro Hamish Laing, Len Richards a Peter Max i gyd yn dod â phrofiadau amrywiol fel arweinwyr ar draws eu sectorau perthnasol i'n helpu i lunio ein cyfeiriad strategol ein hunain. Roeddem hefyd yn falch iawn o groesawu'r Prif Swyddog Gweithredol Arweiniol ar gyfer Arloesi yn GIG Cymru, Paul Mears, a Rheolwr Gyfarwyddwr Cydwasanaethau y GIG, Neil Frow, fel arsylwyr i'n Bwrdd i gynnig mewnbwn amhrisiadwy o bersbectif arweinyddiaeth y GIG yng Nghymru.

Serch hynny, bu un ymadawiad nodedig ymhlith ein huwch-arweinwyr: fe gamodd ein cyn Gadeirydd, Yr Athro Syr Mansel Aylward i lawr, a throsglwyddo'r awenau i fi. Rwy'n siŵr fy mod yn siarad ar ran pawb yn ein sefydliad wrth ddiolch iddo am ei flynyddoedd o arweinyddiaeth a'r rôl a chwaraeodd wrth drawsnewid Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a'i wneud yr hyn ydyw heddiw. Diolch yn fawr iawn, Mansel.

I gloi, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bob aelod o staff sy'n gweithio yn ein sefydliad am eu hymroddiad a'u gwaith caled drwy gydol y flwyddyn. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlygu rhai o'r llwyddiannau gwych, lle maen nhw wedi mynd y cam ychwanegol hwnnw i weithio mewn partneriaeth â rhai sefydliadau anhygoel sy'n amrywio o fusnesau newydd i Fyrddau Iechyd hyd at sefydliadau rhyngwladol. Drwy waith fel hyn, a gweithio gyda'n partneriaid ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, diwydiant, a'r llywodraeth, gallwn greu cymdeithas iachach, tecach a mwy cynaliadwy yng Nghymru.

Dewch ar y daith gyda ni os gwelwch yn dda.

Chris Martin, Cadeirydd

Crynodeb y Prif Weithredwr

Ein Prif Swyddog Gweithredol, Cari-Anne Quinn, yn rhannu ei hargraffiadau o'r flwyddyn ddiwethaf

Sut fyddech chi'n crynhoi perfformiad yn 2021/22?

Eleni rydym wedi parhau i ddod â phartneriaid ynghyd o amrywiaeth o sectorau i gyflawni arloesedd ar gyfer iechyd, gofal a llesiant gwell. Rydym wedi cydbwyso anghenion uniongyrchol yr ymateb parhaus i'r pandemig Covid-19 gyda dull hirdymor i helpu i gyflawni trawsnewid hirdymor a chynaliadwy - gan gydweithio â phartneriaid i gefnogi Cymru wrth ailgodi'n gryfach a pharatoi ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol at y dyfodol.

Rydym wedi dangos yn gryf ein rôl wrth helpu i ddatblygu a mabwysiadu atebion arloesol, gan ragori ar nifer o'n dangosyddion perfformiad allweddol. Fe wnaethom barhau i weithio'n agos iawn gydag ystod o bartneriaid, gan gefnogi 301 o sefydliadau a chynorthwyo 330 o swyddi. Mae gwaith o'r fath wedi arwain at werth ychwanegol gros (GVA) o £18,150,000, sy'n dangos y gwerth economaidd rydym yn ei gyfrannu i'r sector yng Nghymru.

Eleni hefyd rydym wedi cryfhau ein tîm yn sylweddol wrth i ni barhau i wella'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig yn seiliedig ar anghenion esblygol ein partneriaid sy'n gweithio ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a diwydiant. Symudwn at 2022/23 ar ôl alinio ein gwasanaethau i fylchau yn y systemau cymorth, yn sgil recriwtio carfan o unigolion ag arbenigedd sylweddol mewn arloesedd iechyd i ddarparu gwasanaethau pwysig fel gwybodaeth am y sector a'r farchnad.

Beth oedd eich uchafbwyntiau allweddol ar gyfer 2021/22?

Yn 2021/22 rydym wedi gweld mwy o gydnabyddiaeth nag erioed i rôl arloesedd gwyddorau bywyd wrth drawsnewid iechyd a lles ein cenedl.

Mae'n wych felly gweld ein ffocws craidd fel sefydliad yn cyd-fynd ag awydd y llywodraeth i ddefnyddio newid system gyfan i gyflymu mynediad at arloesedd iechyd, gofal a llesiant.

Rhoddwyd pwyslais mawr ar gefnogi partneriaid i gydweithio drwy ddefnyddio dull 'Cymru'n Un', gan adeiladu ar gryfderau'r elfennau presennol er mwyn osgoi cystadleuaeth fewnol ac annog cydweithio di-dor.

Rydym wedi gweld y potensial hwn yn ein gwaith yn helpu datblygiad Parc Gwyddoniaeth Cardiff Edge, a fydd yn cynnig amgylchedd cydweithredol ar gyfer ymchwil a datblygu arloesedd a thechnolegau.

Mae ein gwaith yma yn cynnwys cefnogi sefydliad gwyddorau bywyd byd-eang, Cytiva, i ehangu eu cyfleusterau ar safle Cardiff Edge, lle buom yn gweithio'n agos mewn partneriaeth ag Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol y DU, Tasglu Brechlynnau'r DU a chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru. Bydd y buddsoddiad hwn gan Cytiva yn arwain at greu dros 200 o swyddi newydd ac ehangu eu cyfleusterau 70,000 troedfedd sgwâr i gynhyrchu cynnyrch sy'n hanfodol i'r gadwyn gyflenwi fyd-eang am frechlynnau Covid-19.

Rydym hefyd wedi canolbwyntio ein gwaith ar ganfod a rhoi diagnosis cynnar o glefydau fel rhan o'n hagenda gofal iechyd ataliol. Mae hyn hefyd yn cael ei flaenoriaethu gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, sy'n cydnabod ei botensial i leihau effaith clefydau. Uchafbwynt hyn oedd ein rhaglen Canfod Cynnar a Diagnosteg mewn partneriaeth â Rhwydwaith Canser Cymru.

Fe wnaethom gydweithio i drefnu uwchgynhadledd lle gwahoddwyd 120 o arweinwyr barn allweddol, arbenigwyr ac ymarferwyr i drafod technolegau datblygol a sut gallwn ddatblygu ein gwaith yn y maes hwn. Mae'r gwerth a ddeilliodd o'r digwyddiad hwn i'r rhai a fynychodd wedi arwain at drefnu cyfarfodydd pellach i helpu gwaith canfod a rhoi diagnosis cynnar i barhau i symud ymlaen.

Mae 2021 wedi ein gweld yn cychwyn ar daith gyffrous, gan adeiladu ar ein profiad helaeth o gyflymu arloesedd tuag at gyd-greu system llesiant ataliol, integredig sy'n gallu diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Rwy'n hyderus ein bod ni fel sefydliad wedi'n harfogi'n dda i wneud hynny i gefnogi'r weledigaeth feiddgar hon, sy'n cael ei chryfhau gan gefnogaeth, brwdfrydedd ac arweinyddiaeth anhygoel ein Cadeirydd, Chris Martin.

Beth yw eich cynlluniau ar gyfer 2022/23?

Wrth i ni droi at eleni, mae ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a thu hwnt yn wynebu pwysau difrifol. Mae ôl-groniad sylweddol o gleifion a'r pwysau gweithredol a achoswyd gan Covid-19 wedi cynyddu'r heriau sydd wedi wynebu'r systemau iechyd a gofal cymdeithasol ers tro. Gall y cynhyrchion, gwasanaethau a ffyrdd o weithio arloesol a gyflwynwyd gan y diwydiant gwyddorau bywyd ein helpu i fynd i'r afael â phwysau o'r fath, sydd hefyd wedi'i gydnabod gan lywodraethau ar draws y byd.

Rydym wedi defnyddio 2021/2 i archwilio sut gall ein sefydliadau ddiwallu anghenion datblygol nid yn unig ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol ond y sector gwyddorau bywyd, gan greu cynllun cynaliadwy sy'n cefnogi ymdrechion hirdymor, buddion gwell i gleifion a thwf economaidd drwy arloesi.

Bydd ein Cynllun Busnes 2022/3 yn helpu i wneud y mwyaf o effaith newid trawsnewidiol ac wedi'i ddatblygu'n agos gydag ystod o bartneriaid ar draws y sector sy'n cydnabod eu gofynion, eu heriau a'u cyfleoedd, yn ogystal â'i wreiddio ym mholisïau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Gydag atal yn greiddiol iddo - byddwn yn cefnogi'r symudiad i system lesiant integredig ddyfnach, gan ddod â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i gleifion, ac i gefnogi newid trawsnewidiol yn ein seilwaith gofal eilaidd.

Rydym hefyd wedi mireinio ein blaenoriaethau thematig dewisol i adlewyrchu ein cynllun newydd yn well, gan ganolbwyntio ar ddau faes. Y cyntaf yw Digidol, Deallusrwydd Artiffisial a Roboteg, lle gall ehangu seilwaith digidol Cymru yn barhaus wneud gwasanaethau yn fwy hygyrch, gwella siwrnai cleifion a helpu staff i ddarparu gwasanaeth gwell. Yr ail yw Meddygaeth Fanwl, sy'n cwmpasu diagnosteg gynnar, genomeg a therapïau datblygedig. Yma, byddwn yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i greu ffrwd o arloesedd ar draws Cymru sy'n cyd-fynd â 'Gweledigaeth Gwyddorau Bywyd' Llywodraeth y DU, sy'n blaenoriaethu'r meysydd hyn.

Beth yw eich cynlluniau ar gyfer twf yn y tymor hwy?

Does dim arwydd bod twf parhaus y diwydiant gwyddorau bywyd yn arafu, gyda 'Gweledigaeth Gwyddorau Bywyd' Llywodraeth y DU' (2021) yn nodi ei fod ymhlith y sectorau mwyaf gwerthfawr a mwyaf pwysig yn strategol i iechyd a chyfoeth cyffredinol y wlad.

Mae'n bwysig felly ein bod yn cynrychioli'r tirlun iechyd, gofal cymdeithasol a gwyddorau bywyd ledled Cymru yn bositif drwy ymgysylltu'n ystyrlon â Llywodraeth y DU a'i sefydliadau cysylltiedig. Gall Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru hyrwyddo cyfleoedd am arloesedd iechyd yng Nghymru fel elfen allweddol o dirlun ymchwil ac arloesi ehangach y DU. Bydd hyn yn ein galluogi i weithio'n fwy holistig gyda'r DU, gyda phob un ohonom yn defnyddio ein cryfderau cymharol ac yn helpu i ysgogi buddsoddiad byd-eang i Gymru.

Un o'r cryfderau hyn yng Nghymru yw ein system gofal iechyd cyd-gysylltiedig, sy'n caniatáu mynediad haws ar draws y llwybr gofal llawn o ofal sylfaenol i ofal eilaidd ac i'r gymuned. Serch hynny, mae achos cryf dros ddyfnhau'r integreiddio a'r meddwl hwn ymhellach y tu hwnt i iechyd a gofal cymdeithasol yn unig. Drwy ddod â gweithgareddau gwyddorau bywyd at ei gilydd yng Nghymru gyda'n gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gallwn helpu i gydweithio ar draws y sector ffynnu drwy weledigaethau sy'n cael eu rhannu ac sy'n adeiladu ar elfennau pob partner. Mae ein mewnwelediad a'n dealltwriaeth o'r tirlun gwyddorau bywyd yng Nghymru yn golygu y gallwn siapio hyn, gan ysgogi gweithgaredd a fydd yn cynyddu ein twf a'n hadferiad i'r eithaf ar ôl y pandemig.

Dyna'r achos hefyd ar y llwyfan rhyngwladol, lle rydym wedi gweld diwydiant sydd eisoes yn fyd-eang yn dod yn fwyfwy felly. Gwelwyd cydweithio digynsail ar draws y sector yn ystod y pandemig rhwng nifer o genhedloedd, gan sicrhau canlyniadau yn gyflym ac eang. Mae'n bwysig bod Cymru wedi'i lleoli o fewn y partneriaethau byd-eang parhaus hyn.

Drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gall Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru helpu i gefnogi hyn drwy gyfathrebu ein cryfderau a'n llwyddiannau mewn cyfarfodydd busnes rhyngwladol ac uwchgynadleddau arloesi rhanbarthol. Byddwn hefyd yn gweithio i nodi cyfleoedd ymgysylltu traws-genedlaethol, gan gynyddu amlygrwydd gwyddorau bywyd a gofal cymdeithasol fel sector allweddol yn rhaglenni datblygu masnach a buddsoddiadau tramor Cymru.

Mae ein cynllun busnes newydd wedi caniatáu i ni deilwra ein sefydliad i anghenion partneriaid Cymru, y DU ac yn rhyngwladol mewn byd sydd wedi'i siapio gan heriau a chyfleoedd Covid-19. Rydym am ysgogi ein partneriaid ar draws bob sector i ysgogi gwelliannau iechyd, economaidd a chymdeithasol yng Nghymru.

Amdanom ni

Pwy ydyn ni

Corff hyd braich Llywodraeth Cymru yw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Ers 2018, ein pwyslais yw integreiddio sefydliadau i gyflymu datblygiad a mabwysiadu arloesedd ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Rydym yn bartner y gellir ymddiried ynddo o ran cyflwyno arloesedd – gan ddefnyddio ffordd ystwyth, hyblyg ac ymatebol wrth weithio gyda'n rhanddeiliaid

Mae gennym y wybodaeth a'r mewnwelediad ar draws y sector gwyddorau bywyd a'r tirlun iechyd a gofal ledled Cymru.

Mae hynny'n golygu ein bod yn bont annibynnol rhwng rhanddeiliaid iechyd, gofal cymdeithasol, y byd academaidd, technoleg meddygol, fferyllol a diwydiant gan alluogi cydweithio llwyddiannus ac i gyflymu'r broses o fabwysiadu arloesedd.

Ein gweledigaeth yw...

Gwneud Cymru yn lle o ddewis ar gyfer arloesi ym maes iechyd, gofal a lles.

Cyflawnwn hynny drwy...

Cyflymu datblygiad a mabwysiadu atebion arloesol ar gyfer gwell iechyd a lles.

Sut rydyn ni'n gweithio

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â diwydiant, iechyd, gofal cymdeithasol, llywodraeth a'r byd academaidd – gan ganolbwyntio ar gafod ac atal cynnar. Rydym wedi ymrwymo i oresgyn rhwystrau a dod o hyd i atebion drwy gydweithio ystyrlon ar draws y sector sydd o fudd i ddinasyddion a busnesau ledled y wlad a thu hwnt.

Ein blaenoriaethau cyflawni:

- Nodi a datblygu arloesedd wrth ddiwydiant.
- Curadu a hyrwyddo arloesedd o fewn GIG Cymru.
- Datblygu swyddogaeth adnabod a darparu cyllid effeithiol yn unol â chyfleoedd thematig iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cynnull a threfnu rhanddeiliaid i gydweithio, hybu rhaglenni cenedlaethol a chyflwyno arloesedd.

Ein gwasanaethau:

- Sganio'r gorwel a chwilio am arloesedd: chwilio am gynnyrch a thechnegau arloesol i gefnogi heriau gofal iechyd penodol a nodi a brysbennu technolegau newydd gyda photensial marchnad cryf.
- Dadansoddi'r farchnad: darparu mewnwelediadau ac adroddiadau'r farchnad, papurau gwyn manwl ac ymchwil pwrpasol fel mapio rhanddeiliaid a'r sector.
- Cymorth achos busnes ar gyfer partneriaid gofal iechyd: cynhyrchu achosion busnes safonol ac fel partner niwtral y gellir ymddiried ynddo i ddatblygu achosion cenedlaethol sy'n rhychwantu byrddau iechyd ac awdurdodau lleol.
- Rheoli prosiectau: hwyluso'r broses o werthuso a sefydlu sylfaen dystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd cynhyrchion a gwasanaethau yn ymarferol, ochr yn ochr â hwyluso trafodaeth a chydweithio posib rhwng partneriaid traws-sector drwy gynnull y system.

Ffitio i mewn i'r tirlun arloesedd

Rydym yn gweithio ar draws ecosystem gymhleth sy'n helpu i drawsnewid iechyd a gofal iechyd yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r tirlun deinamig hwn yn golygu bod llu o randdeiliaid yn rhan o hyn – pob un â rôl unigryw wrth gyflymu'r broses o gyflwyno a mabwysiadu atebion i wella canlyniadau cleifion. Rydym yn annog cydweithio a gweithredu ledled y sector ar draws ystod eang o sefydliadau ac yn helpu i ysgogi newid ar draws y system drwy drefnu a chynnull y cysylltiadau hyn.

Mae ein gwaith yn golygu ein bod yn cynrychioli Cymru o fewn cyd-destun y DU, gan weithio ochr yn ochr â'r Rhwydweithiau Gwyddorau Iechyd Academaidd. Rydym yn ymgysylltu'n glinigol i gefnogi anghenion adferiad ac ôl-groniad ar ôl y pandemig drwy gefnogi darpariaeth ranbarthol a rhaglenni cenedlaethol. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid sy'n gweithio ar draws pob maes o arloesedd mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys y saith bwrdd iechyd lleol a'r tair ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, TEC Cymru a Thechnoleg Iechyd Cymru.

Fel sefydliad integreiddio, mae ein tîm arbenigol yn darparu cymorth pwrpasol ar hyd y llwybr mabwysiadu arloesedd – gan ddarparu gwasanaethau gwerthfawr i helpu i feithrin arloesedd ar draws pob rhanddeiliad. Drwy helpu i lywio'r system gymhleth, mae'r hyn y mae ein gwasanaeth yn ei gynnig yn cefnogi'r angen i weithredu atebion arloesol a helpu i ddatblygu rhaglenni mabwysiadu cenedlaethol.

Llwybr mabwysiadu arloesedd



Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

Uchafbwyntiau Cyflawni

Perfformiad

Rydym wedi cefnogi ystod eang o weithgareddau i helpu i gyflymu'r broses o ddatblygu a mabwysiadu atebion arloesol sy'n gwella canlyniadau llesiant iechyd ac economaidd yng Nghymru. Mae ein tîm wedi darparu detholiad amrywiol, estynedig a chryfach o wasanaethau cymorth.

Rydym wedi gweithio ar draws ein meysydd blaenoriaeth:



Yn 2021/22, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi:



Mae ein huchafbwyntiau yn cynnwys...

- Cefnogi'r gwasanaeth iechyd i fynd i'r afael â gofynion adfer ac ôl-groniad ar ôl y pandemig.
- Archwilio'r heriau a'r cyfleoedd i lywio'r broses o ganfod a rhoi diagnosis cynnar o ganser drwy ddod â 120 o arweinwyr at ei gilydd sy'n gweithio yn rheng flaen y maes hwn mewn partneriaeth â Fforwm Diwydiant Canser Cymru.
- Cefnogi tîm byd-eang Cytiva drwy eu proses gwneud penderfyniadau a arweiniodd at fuddsoddiad sylweddol a datblygiad cyfleuster gweithgynhyrchu Cardiff Edge. Bydd y safle sydd newydd ei ddatblygu yn helpu i gynyddu capasiti gweithgynhyrchu byd-eang Cytiva ar gyfer cynhyrchion plastig untro o 20%.
- Cefnogi datblygiad Rhwydwaith Cymru Gyfan ar gyfer Llawdriniaeth Drwy Gymorth Robot mewn partneriaeth â byrddau iechyd a Moondance Cancer Initiative. Bydd y rhaglen genedlaethol ar gyfer llawdriniaeth drwy gymorth robot yn darparu llawdriniaethau llai mewnwthiol i filoedd o gleifion canser ledled Cymru
- Cefnogi datblygiad technoleg newydd yng Nghymru, gan gynnwys biopsi hylifol, monitro o bell a deallusrwydd artiffisial i alluogi diagnosteg ac i leihau ymweliadau â'r ysbyty.

Cynnull partneriaid

Rydym wedi ymgymryd â rôl gydgysylltu flaenllaw ar gyfer dod â rhanddeiliaid o bob rhan o'r cwmni at ei gilydd ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, diwydiant a'r byd academaidd i gydweithio ar brosiectau, grwpiau diddordeb a digwyddiadau. Gyda'i gilydd, maent wedi cyfuno eu cryfderau, eu harbenigedd a'u hadnoddau cymharol i gefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau a fydd yn caniatáu darparu gofal cynaliadwy o ansawdd uchel.

Deallusrwydd Artiffisial a Methiant y Galon

Fe wnaethom ymgysylltu â sefydliad gwyddorau bywyd byd-eang, Amgen, i gefnogi prosiect newydd a fydd yn defnyddio deallusrwydd artiffisial i lywio'r broses o ailgynllunio llwybrau methiant y galon. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Rhwydwaith y Galon Cymru a banc data SAIL wedi gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu hyn. Mae Amgen wedi cadarnhau ers hynny y byddant yn gwneud buddsoddiad ariannol sylweddol i lywio'r camau datblygu cynnar – sy'n cydnabod Cymru fel canolfan fyd-eang i ysgogi eu huchelgeisiau gyda'r gwaith hwn.

Trefnu Uwchgynhadledd Canfod a Rhoi Diagnosis Cynnar o Ganser

> "Mae digwyddiadau fel hyn yn helpu i gynnull a symbylu rhanddeiliaid o bwys i drawsnewid gwasanaethau o'r fath, lle mae pob un yn dod â phrofiad a mewnwelediadau amrywiol, ond dim ond drwy gydweithio y byddwn yn cyflawni yn erbyn ein dyheadau."
>
> Tom Crosby,
> Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol dros Gymru, Rhwydwaith Canser Cymru

Fe wnaethom weithio gyda Fforwm y Diwydiant Canser yng Nghymru a'r Moondance Foundation i drefnu digwyddiad 'Arloesi wrth Ganfod a Gwneud Diagnosis o Ganser yng Nghymru'.

Ceir sgôp sylweddol i wella canfod a rhoi diagnosis cynnar yng Nghymru. Fe wnaeth dros 120 o arbenigwyr, arweinwyr barn allweddol ac ymarferwyr fynychu'r digwyddiad undydd ar 17 Tachwedd 2021 i archwilio'r heriau a'r cyfleoedd o ran canfod a rhoi diagnosis cynnar.

Fe wnaethom gynnig mewnwelediadau a chysylltiadau gan y rhai sy'n gweithio ar draws y diwydiant a chynhyrchwyd pecyn i gynrychiolwyr a oedd yn cynnwys crynodebau o ddatblygiadau diweddar yn y maes hwn. Roedd hyn yn seiliedig ar ymchwil gefndir helaeth a baratowyd gan ein Tîm Gwybodaeth am y Sector a'r Moondance Foundation.

Cydlynu grŵp diddordeb arbennig Deallusrwydd Artiffisial

Rydym wedi sefydlu Grŵp Diddordeb Arbennig Deallusrwydd Artiffisial, sy'n anelu at gyflymu'r broses o ddatblygu a chyflwyno Deallusrwydd Artiffisial diogel, moesegol mewn iechyd a gofal.

Dyma grŵp o uwch arweinwyr sy'n cynnwys ysgolheigion a chlinigwyr o fewn iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n cwrdd yn fisol i rannu gwybodaeth, profiadau, syniadau a phryderon. Mae diwydiant hefyd yn mynychu i arddangos technoleg – gan roi cyfle i'w hintegreiddio i systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r grŵp hwn yn cynnig fforwm pwysig i ddod â phartneriaid sy'n gweithio ar draws Cymru at ei gilydd i archwilio technolegau datblygol ac i drafod y ffordd orau o'u gwreiddio mewn systemau gofal iechyd.

Yn ddiweddar, rydym hefyd wedi sefydlu platfform caeedig, diogel ar-lein i aelodau ymgysylltu â'i gilydd rhwng cyfarfodydd ac i barhau â sgyrsiau pwysig.



Trefnu'r system

Rydym yn deall bod angen trawsnewidiad mawr ar iechyd a gofal cymdeithasol i barhau i ddiwallu anghenion ein poblogaeth. Mae newid system o'r fath yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid cysylltiedig o bob rhan o'r wlad weithio gyda'i gilydd yn ddi-dor ac osgoi cystadleuaeth fewnol. Rydym wedi cefnogi'r broses o gyflwyno dull 'Cymru'n Un' drwy ddod â phartneriaid ar draws y sector at ei gilydd.

Ymgysylltu â diwydiant yn natblygiad safle Cardiff Edge

Rydym yn parhau i ymgysylltu â We Are Pioneer Group (WAPG), yr ecosystem arloesi fwyaf ar gyfer y diwydiannau gwyddoniaeth a thechnoleg yn Ewrop, drwy gefnogi eu cynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu Parc Gwyddoniaeth Cardiff Edge. Bydd y parc gwyddoniaeth yn cynnig man gwaith cydweithredol ar gyfer y sector gwyddorau byw drwy gefnogi ymchwil a datblygu ym maes arloesedd a thechnolegau. Wrth i'r uwchgynllun ddatblygu, mae ein tîm wedi bod yn parhau i nodi a chefnogi cyfleoedd newydd ar gyfer y sector gwyddorau bywyd – gan gwmpasu cyfleoedd posib i gydweithio ar y safle.

Yn ganolog i'r gwaith hwn fydd cyd-leoli Parc Geneteg Cymru, Gwasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan ac Uned Genomeg Pathogen Iechyd Cyhoeddus Cymru ar safle Cardiff Edge. Bwriad y fenter hon yw integreiddio gwasanaethau genomeg a datblygu Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Meddygaeth Fanwl. Rydym hefyd wedi cefnogi Cytiva ym eu buddsoddiad sylweddol ar safle Cardiff Edge, drwy weithio gydag Adran Buses, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU, Tasglu Brechlynnau'r DU a chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru. Bydd hynny'n golygu creu dros 200 o swyddi newydd ac yn ehangu'r cyfleusterau tua 70,000 troedfedd sgwâr i gynhyrchu cynnyrch sy'n hanfodol i'r gadwyn gyflenwi fyd-eang am frechlynnau Covid-19.

Gwerthuso gwasanaeth traws-fagnetig

Cwmni o Gymru yw Magstim sy'n cyflenwi ysgogiad magnetig traws-greuanol i gleifion sydd wedi methu ag ymateb i ffyrdd niferus o drin iselder. Gwneir hynny drwy gyfres anymledol o bwls magnetig ailadroddus, cryno â ffocws uchel, a ddefnyddir i ysgogi celloedd yr ymennydd.

Mae'r sefydliad wedi'i leoli yng Nghymru ac yn cyflenwi eu cynhyrchion i'r GIG y tu allan i Gymru, ond nid i'r GIG yng Nghymru. Er mwyn helpu i newid hyn a chefnogi busnes i archwilio cynigion gwasanaeth posibl i Gymru, rydym wedi meithrin gwerthusiad rhwng Magstim a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – gan helpu y GIG yng Nghymru i edrych ar botensial mabwysiadu'r dechnoleg sefydledig hon.

Cymorth gyda cheisiadau

Mae Gwobrau Iechyd a Gofal NHSX AI yn bwriadu darparu hyd at £140 miliwn o gyllid i gyflymu'r broses o brofi a gwerthuso'r technolegau Deallusrwydd Artiffisial mwyaf addawol ar draws y sbectrwm datblygu – o ymarferoldeb hyd at werthuso'r GIG. Mae'n cael ei redeg gan Accelerated Access Collaborative (AAC) mewn partneriaeth â NHSX a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR). Rydym wedi cefnogi'r prosiect cenedlaethol hwn drwy hyrwyddo ei drydedd rownd o gyllid, cynnal digwyddiadau i alluogi partïon i nodi partneriaid am geisiadau. Gyda'n cefnogaeth ni, cyflwynwyd chwe chais ym mis Medi. Mae ymgeiswyr wedi cael adolygiadau o'u cais, gan gynnwys arweiniad ar arddull ysgrifennu, cynnwys, fformat, a chadw at ofynion cyllidwyr.

Gwerthuso gwasanaeth TNE

Fe wnaethom ddechrau gwerthusiad o wasanaethau mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, y Moondance Cancer Initiative ac Olympus. Bydd y prosiect hwn yn dangos gallu diagnosteg Traws-Endosgopi Trwynol (TNE) ar gyfer diagnosteg canser cynharach. Nod y gwerthusiad yw gwella diagnosteg drwy gynyddu capasiti TNE, gan leihau faint o ganserau sy'n cael diagnosis pan na fydd modd gwella'r canser neu pan fydd y canser yn ddatblygedig. Os yn llwyddiannus, mae gan y dechnoleg hon y potensial i gael ei chyflwyno ar draws Cymru.

Cyflymu cyfleoedd

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar brosiectau sy'n gysylltiedig â'n meysydd o flaenoriaeth sef Meddygaeth Fanwl, Therapïau Datblygedig, Digidol a Deallusrwydd Artiffisial a Gofal Iechyd sy'n seiliedig ar Werth - gan gynnig gwasanaethau sy'n cynnwys cymorth rheoli prosiectau, cyngor am gyllid, cymorth datblygu cynigion a gwybodaeth am y farchnad.

Datblygiad Achos Cyfiawnhad Busnes Cenedlaethol

Rydym wedi gweithio i ddatblygu Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer Rhaglen Genedlaethol i Gymru ar gyfer Llawfeddygaeth drwy Gymorth Robot. Mae datblygiad Llawfeddygaeth drwy Gymorth Robot ar draws Cymru wedi dod yn flaenoriaeth oherwydd y corff cynyddol o dystiolaeth a'r manteision cysylltiedig niferus i gleifion.

Nod y rhaglen yw gweithredu'n gyflym Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Llawfeddygaeth drwy Gymorth Robot, y gyntaf o'i bath yn y byd, wedi'i chyflwyno mewn rhaglen gyd-gysylltiedig ledled Cymru.

Bydd hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaeth llawfeddygaeth drwy gymorth robot sy'n creu archoll mor fach â phosib o safon fyd-eang, a fydd yn y pen draw yn disodli technegau cyfredol llawfeddygaeth agored a laparoscopig.

Bydd y NRP yn darparu buddion sylweddol i gleifion ac yn cryfhau'r gweithlu llawfeddygol cyfredol yn ogystal â'u hehangu a'u huwchsgilio.

> Mae'r rhaglen genedlaethol hon yn cofleidio'r arloesedd diweddaraf i wella canlyniadau cleifion ac yn arwain at ddefnydd effeithlon o dimau llawfeddygol ac adnoddau, sy'n hanfodol nawr.
>
> Tom Crosby,
> Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol i Gymru,
> Rhwydwaith Canser Cymru

Cefnogi ailddatblygiad llwybr diagnostig cynnar redevelopment

Rydym wedi gweithio gyda'r gwasanaethau patholeg yng Ngorllewin a Gogledd Cymru i gyflwyno technoleg newydd i ganfod canser yr ysgyfaint yn gynnar ac wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Powys ar werthuso a chynllunio profion pwynt gofal newydd.

Cefnogi Therapïau Datblygedig Cymru

Mae cyflwyno rhaglen Therapïau Datblygedig Cymru (ATW) wrthi yn y cam cwmpasu, sy'n ceisio deall gofynion rhanddeiliaid a chynhyrchu achos busnes i gefnogi buddsoddiadau parhaus a chynyddol mewn seilwaith a gwasanaethau.

Wrth baratoi, rydym wedi cynhyrchu llif o ymgysylltiad diwydiannol ac yn gweithion agos gyda Therapïau Datblygedig Cymru i gefnogi'r broses o gyflawni.

Gwella canlyniadau gyda chaffael sy'n seiliedig ar werthoedd

Rydym yn gweithio gydag ystod o bartneriaid ar draws y sector ar Brosiect Gofal Iechyd Seiliedig ar Werthoedd arloesol sy'n anelu at wella canlyniadau i gleifion yn llwybr methiant y galon.

Rydym wedi ymgymryd â gwaith cynllunio prosiect ac wedi ymgynghori â thîm clinigol a gweithredol mewn partneriaeth â Roche Diagnostics, Digipharm a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae'r prosiect hwn yn defnyddio ffordd o gaffael sy'n seiliedig ar werthoedd i ddefnyddio adnodd diagnostig NTProBNP o fewn gofal sylfaenol i gleifion â methiant y galon. Mae platfform Digipharm yn monitro canlyniadau, gan edrych ar welliannau mewn canlyniadau a thaliadau ar ganlyniadau.

> Nid yw un sefydliad yn mynd i ddatrys y materion cymhleth sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werthoedd a Chaffael sy'n Seiliedig ar Werthoedd ar ei ben ei hun. Dyna pam ein bod yn gyffrous i fod yn rhan o'r cydweithio hwn ac wedi ymrwymo i fuddsoddi yn y prosiect hwn i helpu i ddod â manteision VBHC a VBP i'r GIG yng Nghymru.
>
> Chris Hudson
> Cyfarwyddwr Mynediad ac Arloesi Roche Diagnostics UK and Ireland

Llunio'r dyfodol

Rydym wedi gweithio ar ystod o brosiectau a chyfleoedd sy'n helpu i gyflwyno'r newid angenrheidiol yn y system i wella iechyd a llesiant economaidd Cymru a thu hwnt. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar wella sgiliau allweddol, seilwaith ac adnoddau i gefnogi'r broses o ddatblygu a mabwysiadu atebion arloesedd, ochr yn ochr â gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer Cymru ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

Ysgogi recriwtio ar gyfer Academïau Dysgu Dwys

Gwnaethom gyflwyno'r deunydd cyfathrebu adeg lansio a recriwtio rhaglen Academïau Dysgu Dwys newydd ar draws Cymru. Mewn prifysgolion mawr eu bri, mae'r Academïau Dysgu Dwys yn helpu i drawsnewid y broses o gyflwyno iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y byd. Mae'r academïau hyn, sy'n arwain y ffordd ledled y byd, yn cyflwyno cyrsiau academaidd, yn ogystal â chynnig ymchwil a gwasanaethau ymgynghori pwrpasol i gefnogi sefydliadau unigol i fabwysiadu a chyflwyno arloesedd ystyrlon ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Academiau Dysgu Dwys Cymru
Intensive Learning Academies Wales

Fe wnaethom ddarparu hwb gwybodaeth canolog gyda manylion recriwtio a derbyn ar gyfer yr holl wasanaethau a chyrsiau sy'n cael eu cynnal ar draws Prifysgol Abertawe, Prifysgol Bangor a Phrifysgol De Cymru, i gyd mewn partneriaeth â gwahanol sefydliadau gofal iechyd ac academaidd cenedlaethol a byd-eang.

Roedd hyn yn cynnwys creu tudalennau pwrpasol ar gyfer y wefan, trefnu digwyddiadau, creu deunyddiau brandio a hyrwyddo, ymgymryd â gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus, a datblygu ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol am dâl ac organig, a gwerthuso'r ymgyrch.

Rhoi Cymru ar y map drwy ymgysylltu â pholisi

Rydym wedi gweithio gyda sefydliadau'r llywodraeth gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yr Adran Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach, Diwydiant Cymru ac Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU.

Gwnaed hyn i gefnogi cynnydd yn nifer y sefydliadau sy'n sefydlu sylfaen gadarn yng Nghymru sydd â chysylltiad agos â'n cymunedau ac a all helpu datblygiad a gwytnwch ein cadwyn gyflenwi leol.



Cydweithio â rhwydweithiau arloesedd gofal iechyd ar draws y DU

Rydym wedi datblygu a chryfhau ein cydweithio â'r Accelerated Access Collaborative (AAC), Rhwydweithiau Gwyddorau Iechyd Academaidd (AHSN) a rhanddeiliaid eraill ar draws y DU ac yn fyd-eang. Mae hyn wedi bod er mwyn archwilio sut maent wedi addasu eu ffordd o weithio, gan helpu i gyflymu mynediad at driniaethau a gwasanaethau.

Cynhaliwyd gwaith pellach gyda'r Rhwydweithiau Gwyddorau Iechyd Academaidd (ac yn uniongyrchol gyda'r De Orllewin, Swydd Efrog a Health Innovation Manchester) a rhwydwaith AAC i alinio gweithgareddau; rydym yn cymryd rhan mewn archwiliad o'r gwasanaeth a gynigir a gweithdai ar alinio llwybrau arloesi.

Creu adnodd arloesi pwrpasol

Buom yn gweithio gydag arweinwyr arloesi sydd ar flaen y gad yn eu meysydd, ar draws gofal iechyd, gofal cymdeithasol, diwydiant a'r byd academaidd i ddatblygu adnodd Cyflawni Arloesedd. Ar ein gwefan, roedd yn cynnwys mewnwelediad allweddol, ymchwil newydd a phersbectif ffres – gan ddarparu'r adnoddau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar bob sector i wneud gwahaniaeth. Roedd hyn yn cynnwys darnau ymchwil ar y tirlun arloesedd, cyfeirlyfr o sefydliadau cymorth arloesi yng Nghymru a blogiau arweinwyr agweddau.

I gefnogi datblygiad y darn, rydym wedi cyfweld ag ystod eang o arweinwyr arloesi fel Miles Burrows, Rheolwr Gyfarwyddwr (DU ac Iwerddon) PerkinElmer, Sue Evans, Prif Swyddog Gweithredol Gofal Cymdeithasol Cymru a Dr Chris Subbe, Meddyg Ymgynghorol Acíwt, Anadlol a Gofal Critigol ac Uwch Ddarlithydd Clinigol.

> Roedd adolygiad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru 'Cyflawni Arloesedd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn canu cloch gyda'n persbectif sefydliadol ar arloesedd. Mae'r pynciau a archwiliwyd yn cyd-fynd â'r hyn a welwn ar lawr gwlad ac hyd yn oed yn adlewyrchu sut rydym wedi ein strwythuro i wneud y mwyaf o ystwythder ac arloesedd.
>
> **Miles Burrows**

Appointing three new innovation Adoption Ambassadors

> Mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru rôl bwysig wrth gynnull a chefnogi partneriaid i lywio newidiadau'r system Cymru gyfan sydd eu hangen.
>
> **Dr. Leighton Phillips**

Rydym wedi penodi tri uwch arweinydd o GIG Cymru fel Llysgenhadon Mabwysiadu: Dr Mark Briggs, Cyfarwyddwr Arloesi Cynorthwyol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Dr Leighton Phillips, Cyfarwyddwr Ymchwil, Arloesi a Phartneriaethau Prifysgol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Dr Tom Powell, Pennaeth Arloesi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Bydd pob un yn helpu i gryfhau perthnasoedd ar draws Cymru rhwng gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, y byd academaidd a diwydiant drwy ymgysylltu'n uniongyrchol a chefnogi'r broses o adeiladu rhwydweithiau.

Byddant yn bont bwysig rhwng sefydliadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sy'n cyflwyno mentrau a rhaglenni gwaith, gan weithredu fel eiriolwyr.

Dr Leighton Phillips, Cyfarwyddwr Ymchwil, Arloesi a Partneriaethau Prifysgol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dr Tom Powell, Pennaeth Arloesi, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dr Mark Briggs, Cyfarwyddwr Arloesi Cynorthwyol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Ymgysylltu'n rhyngwladol

Rydym wedi gweithio ar ystod o weithgareddau ymgysylltu rhyngwladol i helpu i alinio Cymru â'r sector gwyddorau bywyd ac iechyd ar draws y byd. Yn ddiweddar, fe wnaethom gefnogi Gweinidog yr Economi yng Nghymru Vaughan Gething, i drefnu ymweliad wrth y Gweinidog Gwladol Gwyddelig dros Hyrwyddo Masnach, Robert Troy, yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Bydd cyfarfodydd ar ôl hynny gyda swyddogion Llywodraeth Iwerddon ac Enterprise Ireland yn helpu i sicrhau cydweithrediad agosach rhwng y ddwy genedl.

Fe wnaethom hefyd gyd-gadeirio cyfarfodydd rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth Quebec, gan archwilio sut i gryfhau cysylltiadau gwyddorau bywyd – drwy archwilio meysydd sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr fel meddyginiaeth fanwl a genomeg ar gyfer gofal iechyd ataliol.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn rhedeg rhaglen Ecosystem Iechyd Digidol Cymru (EIDC), sy'n dod â diwydiant, clinigwyr, llunwyr polisi, ysgolheigion, arloeswyr, a chyllidwyr at ei gilydd i greu amgylchedd o arloesi digidol yng Nghymru. Caiff ein gwaith ei wneud mewn partneriaeth ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Technoleg Iechyd Cymru, TEC Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Cymorth Cronfa Atebion Digidol (DSF)

Rhwng Mawrth 2021-Ebrill 2022, gwelwyd EIDC yn parhau i gefnogi a chydlynu'r broses o gyflwyno prosiectau Cronfa Atebion Digidol. Roedd y rhain yn gynlluniau peilot a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'i anelu ar gyfer arloesi digidol gyd phrofion cyflym mewn systemau gofal iechyd yng Nghymru.

Monitro cleifion â methiant y galon o bell

Gweithiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Huma a EIDC gyda'i gilydd i dreialu monitro cleifion â methiant y galon o bell drwy ddefnyddio ap yn eu cartrefi eu hunain.

Mae technoleg monitro o bell Huma yn caniatáu i gleifion rannu gwybodaeth bwysig a hanfodol gyda chlinigwyr drwy ddefnyddio ap ar eu ffonau symudol. Gall cleifion roi gwybod yn gyflym i glinigwyr am ystod allweddol o ddata gan gynnwys eu pwysedd gwaed, cyfradd curiad y galon a symptomau sy'n datblygu i glinigwyr.

Helpodd EIDC i gefnogi'r gwaith o gydlynu'r prosiect a darparu cymorth cyfathrebu, gan greu astudiaeth achos fideo.

Yn dilyn llwyddiant peilot DSF, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi sicrhau cyllid ychwanegol o £47,000 wrth Lywodraeth Cymru i gynorthwyo i ddatblygu cynnig Cymru gyfan am adnodd monitro cleifion o bell ar gyfer methiant y galon.

> Mae'r peilot hwn yn dangos sut gall technoleg wella gofal, helpu pobl i aros yn annibynnol a rhyddhau llefydd mewn ysbytai ar yr un pryd. Mae ein Cronfa Atebion Digidol yn ein helpu i redeg treialon technoleg ddigidol bach ond cyflym sy'n gallu gwella sut mae ein clinigwyr yn gweithio.
>
> Eluned Morgan,
> Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Lansio'r defnydd cyntaf o ap i ofalu am glwyfau yng Nghymru

Gweithiodd y cwmni technoleg byd-eang Healthy.io, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a EIDC gyda'i gilydd i lansio'r defnydd cyntaf o'u ap arloesol i ofalu am glwyfau yng Nghymru. Mae gwasanaethau gofalu am glwyfau yn swm sylweddol o gyllideb flynyddol GIG Cymru, sy'n costio £330 miliwn, sef 6% o'i gyfanswm. Gall asesu clwyfau yn anghywir arwain hefyd at ymweliadau diangen ac apwyntiadau cleifion allanol ar ôl hynny, sy'n achosi problemau capasiti ac oedi i gleifion sy'n cael mynediad at wasanaethau.

Mae technoleg Healthy.io yn caniatáu i gleifion gael eu clwyfau wedi'u hasesu a'u monitro o gysur eu cartrefi eu hunain. Darparodd EIDC gymorth rheoli prosiectau a chyfathrebu, gan gynnal gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus adeg lansio.

Darparu cymorth iechyd meddwl mewn cartrefi gofal

Mae EIDC wedi cefnogi Spirit Health a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i weithredu technoleg ddigidol o bell i gefnogi'r broses o gyflwyno gofal iechyd meddwl.

Mae'r prosiect peilot 6 mis wedi defnyddio platfform CliniTouch Vie i fonitro dirywiad o bell mewn iechyd meddwl i'r rheini sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae'r dechnoleg hon yn caniatáu staff cartrefi gofal i gofnodi ymatebion preswylwyr i gwestiynau. Yna mae'r wybodaeth, ynghyd â darlleniadau hollbwysig o arwyddion wrth gleifion, ar gael i'r clinigwyr yn y tîm nyrsio mewngymorth, sy'n gyfrifol am fonitro'r cartref gofal.

Felly gellir adolygu cleifion o bell, gyda chymorth system fonitro goleuadau traffig â blaenoriaeth a chefnogi dulliau ymyrryd cynharach.

Drwy ddiffinio'r platfform at ddefnydd Byrddau Iechyd Cymru ar gyfer monitro iechyd meddwl, y gobaith yw y gallai'r peilot ddangos effeithiolrwydd i'w fabwysiadu ymhellach ar draws Cymru.

Gwerthuso ap Painchek mewn awdurdodau lleol

Helpodd EIDC i sicrhau £36,000 o gyllid i werthuso ap Painchek gydag awdurdod Gwent ac Aneurin Bevan mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, gyda safle profi cychwynnol o fis Chwefror 2022.

Mae Painchek yn ap sydd wedi'i alluogi i helpu i reoli poen ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu cyfathrebu.

Mae'n defnyddio technoleg adnabod wynebau deallusrwydd artiffisial i asesu presenoldeb poen ac i reoli cymorth ac ymyrraeth heb ddefnyddio ciwiau geiriol.

Cyflymu Accelerate

Wedi gyd-gyllido gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, prifysgolion, Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a'r byrddau iechyd, mae Cyflymu yn helpu arloeswyr yng Nghymru i drosi eu syniadau yn atebion, a'u galluogi i fanteisio ar arbenigedd academaidd a'r cyfleusterau diweddaraf sydd eu hangen ar arloeswyr ac entrepreneuriaid i wireddu eu syniadau.

Mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru oruchwyliaeth o'r rhaglen, gan weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd (CIA), Prifysgol Abertawe (HTC) a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (ATiC). Roedd y rhaglen i fod i redeg o 2018-2022, gydag estyniad hyd at fis Rhagfyr.

Yn 2021/22 mae'r rhaglen Cyflymu wedi...

- Wedi cefnogi dros 100 o brosiectau
- Wedi dod â 96 o gynhyrchion i'r farchnad
- Wedi sicrhau gwerth dros £3 miliwn o gyllid
- Wedi helpu i greu 125 o swyddi newydd

Rhan allweddol o waith Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yw casglu adroddiadau am wybodaeth ynglŷn â'r sector i gwmnïau sy'n datblygu arloesedd ym maes gwyddorau bywyd. Mae ein tîm wedi cynnig gwaith sganio gorwel hollbwysig i sefydliadau, dadansoddi'r farchnad, adolygiadau am gystadleuwyr a chymorth ariannol.

Mae ein tîm cyfathrebu hefyd wedi darparu cymorth cyfathrebu pwrpasol i sefydliadau sy'n gweithio gyda Cyflymu – a rhoi gwybodaeth iddynt i helpu eu cwmni i sefyll allan a gwireddu eu nodau. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant a chymorth cyfryngau cymdeithasol a datblygu negeseuon a chyngor allweddol.

Cyflymu ar waith

Hyfforddiant rhith-realiti ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol

Gweithiodd Goggleminds gyda rhaglen Cyflymu am gymorth i ddatblygu eu rhaglen hyfforddi realiti rhithwir ar gyfer gweithwyr iechyd gofal proffesiynol – gan weithio'n uniongyrchol gyda chlinigwyr a darparwyr gofal.

Cyflymu'r dull 3D i feithrin celloedd

Defnyddia Copner Biotech waith modelu cyfrifiadurol i greu sgaffaldau 3D i gynllunio celloedd, sy'n gallu cynrychioli'n well y celloedd yn y corff dynol am brofion cyffuriau mwy manwl a modelu clefydau. Mae'r rhaglen Cyflymu wedi eu helpu i ddilysu'r dechnoleg hon mewn lleoliad biolegol, gan ddefnyddio'r arbenigedd a'r cyfleusterau a geir yng Nghanolfan Technoleg Gofal Iechyd Prifysgol Abertawe.

Presgripsiynu Gwyrdd

Mae Presgripsiynu Gwyrdd yn ateb arall i bresgripsiynau confensiynol am driniaeth feddygol, lle mae gweithwyr iechyd proffesiynol a phresgripsiynwyr cymdeithasol yn annog unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau byd natur. Mae Cynon Valley Organic Adventures yn anelu at adeiladu, gwerthuso a hyrwyddo ymgysylltiad gydag adnodd ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd. Drwy weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, maent yn cyd-gynhyrchu llwybr peillio natur-gyfeillgar, sy'n cynnwys gardd llesiant Rhufeinig, planhigion meddyginiaethol, blodau gwyllt a thŷ crwn Celtaidd.

Swansea University Prifysgol Abertawe

Cardiff University Prifysgol Caerdydd

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Life Sciences Hub Wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop European Regional Development Fund

Edrych ymlaen

Y flwyddyn i ddod

Rydym wedi datblygu cynllun uchelgeisiol ar gyfer 2022-23 sy'n cefnogi datblygiad newid systemau ac arloesi ar draws system iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Rydym yn cydnabod bod nifer sylweddol o heriau yn parhau i effeithio ar ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol, sydd yn ei dro, yn effeithio ar les economaidd ac iechyd ein cenedl. Mae ein poblogaeth sy'n heneiddio, yn aml gyda chyd-forbidrwydd, a'r costau cynyddol am therapïau sy'n eu trin yn waeth yn sgil effaith byr dymor a hirdymor Covid-19.

Mae angen dull beiddgar, system-gyfan i fynd i'r afael â hyn. Bydd ein cyfraniad yn cefnogi ymdrechion ailadeiladu ac adfer ac i gyflawni buddion gwell i gleifion, gwerth cymdeithasol a thwf economaidd. Mae'r cynllun hwn yn ffurfio blwyddyn gyntaf cynllun tymor y llywodraeth ar gyfer Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, sy'n cael ei gwblhau yn Ch1 2022/3, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad ag uwch arweinwyr y llywodraeth a GIG Cymru.

Rydym wedi creu hyn yng nghyd-destun polisi Llywodraeth Cymru (Y Rhaglen Lywodraethu (2021)), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Pholisi Llywodraeth y DU (Gweledigaeth Gwyddorau Bywyd y DU (2021)) i alinio ein dulliau â'u strategaethau. Gydag atal yn greiddiol iddynt - byddwn yn cyflwyno arloesedd iechyd i gefnogi drwy bedwar maes effaith, sydd wedi'u datblygu drwy wrando ar bartneriaid ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a diwydiant a gweithio'n agos â nhw; deall eu gofynion, yr heriau sy'n eu hwynebu, a'r cyfleoedd ar y gorwel.

Seiliedig ar atal

Mae hyn yn caniatáu pobl i fyw yn iachach, byw'n hirach drwy leihau'r ffactorau risg ar gyfer rhai cyflyrau ag afiachusrwydd uchel a chyd-forbidrwydd, gan gefnogi ymyrraeth gynnar drwy ddiagnosteg fwy cywir, hygyrch a fforddiadwy.

Seiliedig ar atal

Cefnogi integreiddiad dyfnach ein gwasanaethau iechyd, gofal a llesiant. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i'r ymgyrch bresennol am iechyd a gofal cymdeithasol cyd-gysylltiedig i greu system lesiant holistig sy'n cydnabod y cysylltiad clir ac achosol rhwng iechyd a lles economaidd am drawsnewid parhaus.

Gofal yn agosach at gartref

Mae darparu gofal y tu hwnt i amgylchedd ysbytai ac mewn lleoliadau mwy cymunedol yn ychwanegu gwerth i gleifion, cymunedau a'r amgylchedd. Gall hyn rymuso dinasyddion a helpu i gynnal annibyniaeth ochr yn ochr â gwella effeithlonrwydd amgylcheddol ac economaidd.

Trawsnewid gofal eilaidd

Wedi'i wreiddio yn null gofal iechyd darbodus, byddwn yn cefnogi anghenion gofal eilaidd i ailystyried sut a ble mae diagnosteg a thriniaethau yn cael eu darparu er mwyn lleihau presenoldeb mewn ysbytai.

Byddwn yn gweithio gyda darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i'w galluogi i fodloni'r heriau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i fabwysiadu arloesedd newydd (Tynnul) a gydag arloeswyr a diwydiant i ddatblygu ymhellach arloesedd cynnar (Gwthio) gyda'r bwriad o'i fabwysiadu'n eang yng Nghymru, Mae'n cynnwys:

- Cefnogi 'un drws ffrynt' i arloeswyr fel y gallant deall y system
- Cefnogi dull cenedlaethol o'r broses i gyflymu mabwysiadu arloesedd yng Nghymru
- Datblygu a churadu ffrwd genedlaethol o arloesedd
- Annog symudiad o gynlluniau peilot i fabwysiadu a lledaenu ar gyfer clinigwyr a chleifion i gael mynediad at arloesedd newydd o ran cyflymder a maint
- Adeiladu partneriaethau drwy gydlynu, datblygu a chynnal rhwydweithiau gyda'r system arloesi iechyd, diwydiant, darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, y byd academaidd, cyrff proffesiynol ac asiantaethau cymorth
- Ysgogi darpariaeth leol drwy gynnig dull cyd-gysylltiedig o gasglu arloesedd, asesiadau a gwerthusiadau, gan osgoi dyblygu ymdrech i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a buddsoddiad â mwy o ffocws.

Gydag atal sylfaenol ac eilaidd wrth ei graidd, byddwn yn cyflawni prosiectau sy'n canolbwyntio ar ein blaenoriaethau thematig, sydd wedi'u mireinio i adlewyrchu angen iechyd, gofal cymdeithasol a diwydiant.

Blaenoriaethau thematig

Digidol, Deallusrwydd Artiffisial a Roboteg

Bydd ein prosiectau yn canolbwyntio ar ofal iechyd digidol gyda meysydd allweddol yn cynnwys deallusrwydd artiffisial, mynediad at ddata a safonau, digidol a roboteg. Rydym wedi adeiladu proffil fel gwasanaeth cymorth ar gyfer cynnyrch, cwmnïau, prosiectau a gweithgarwch digidol a byddwn yn parhau yn y rôl hon, gan ymgysylltu â rhwydweithiau gofal cymdeithasol i deall materion heneiddio'n iach yn well, gan weithio gyda staff rheng flaen i ddeall rhwystrau ac i gymryd rhan mewn cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid.

Meddygaeth Fanwl

Mae rhoi diagnosis am glefydau yn ystod y camau datblygedig, yn arwain at gyfraddau goroesi is, mwy o forbidrwydd, a chynnydd sylweddol mewn costau gofal iechyd. Gall dulliau personol at ofal sydd wedi'u teilwra i is-fathau o glefydau a phroffil genetig cleifion helpu i fynd i'r afael â hyn. Byddwn yn canolbwyntio ar ddiagnosteg gynnar, genomeg a therapïau datblygedig i helpu i gyflawni hyn o ran effaith.

Dangosyddion perfformiad allweddol (DPA)

2021/2022

Ddiwedd y flwyddyn, roeddem yn falch iawn ym mis Mawrth 2022, o fod wedi llwyddo i gyflawni a rhagori ar ein holl prif fetrigau. Mae'r canlyniadau gwych hyn yn adlewyrchu'r mewnbwn a'r gweithgareddau o bob rhan o'r sefydliad gan weithio ar y cyd â rhanddeiliaid.

	2021/2022	Targed	Cyflawnwyd
	Sefydliadau a Gefnogwyd	150	319
	Swyddi a Gynorthwywyd	51	330
	Cynnydd mewn GVA	£2,800,000	£18,150,000
	Gwerth y contractau a ddyfarnwyd	£1,000,000	£17,882,000
	Buddsoddiad a achoswyd	£1,500,000	£38,676,000
	Cynigion sy'n barod i'w mabwysiadu	25	26
	Cynigion ariannu a gefnogwyd	29	17
	Gwerth y cynigion ariannu	£10,000,000	£20,014,098

2022/2023

Cadarnhaodd ein Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2022-23 ddiwedd Ebrill 2022 ein targedau DPA a dyraniad ein cyllideb a hefyd ehangwyd ein cylch gorchwyl ymhellach i gynnwys cynrychioli ein diddordebau iechyd a gwyddorau bywyd drwy ymgysylltu'n bwrpasol â Llywodraeth y DU a'i asiantaethau, sy'n arwain at fudd i Gymru.

	2022/2023	Targed
	Sefydliadau a Gefnogwyd	205
	Swyddi a Gynorthwywyd	180
	Cynnydd mewn GVA	£9,900,000
	Gwerth y contractau a ddyfarnwyd	£2,400,000
	Buddsoddiad a achoswyd	£4,900,000
	Cynigion sy'n barod i'w mabwysiadu	37
	Cynigion ariannu a gefnogwyd	29
	Gwerth y cynigion ariannu	£13,600,000

Llywodraethu ac Atebolrwydd

Y Bwrdd

Aelodau'r Bwrdd

Dr Chris Martin BPharm (Hons) FRPharmS DLitt
Cadeirydd

Yr Athro Syr Mansel Aylward CB
Cyfarwyddwr Anweithredol

Rupert Jones
Cyfarwyddwr Anweithredol

Peter Max
Cyfarwyddwr Anweithredol

Jarred Evans
Cyfarwyddwr Anweithredol

Victoria Bates
Cyfarwyddwr Anweithredol

Erica Cassin
Cyfarwyddwr Anweithredol

Cath O'Brien MBE
Cyfarwyddwr Anweithredol

Len Richards
Cyfarwyddwr Anweithredol

Yr Athro Hamish Laing
Cyfarwyddwr Anweithredol

Tîm Gweithredol

Tîm Gweithredol

Cari-Anne Quinn
Prif Swyddog Gweithredol

Rhodri Griffiths
Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd

Gemma Bafico
Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Andrew Cooper
Cyfarwyddwr Cyfathrebu

Llywodraethu ac Atebolrwydd

Adroddiad Llywodraeth ac Atebolrwydd
Mae'r adran hon yn nodi sut mae fframwaith rheoli llywodraethu a risg Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cefnogi llwyddiant nodau ac amcanion y Cwmni.

Amlinellwn sut y caiff Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ei reoli, y rôl a chyfansoddiad Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'i ddau is-bwyllgor, y trefniadau sicrwydd ac atebolrwydd, a'r risgiau y mae'r Cwmni yn eu hamlygu a sut y rheolir y rhain. Rydym hefyd yn disgrifio'r gwaith sy'n mynd rhagddo i wella'r system a'r prosesau llywodraethu yn barhaus.

Mae'r prosesau llywodraethu hyn hefyd yn sicrhau bod yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol, o'u cymryd yn eu cyfanrwydd, yn adlewyrchiad teg a chytbwys o drefniadau llywodraethu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a sut mae'r rhain yn cefnogi model busnes, strategaeth a pherfformiad y Cwmni (manylir yn yr Adroddiad Strategol ar dudalennau 4-27).

Mae'r adran hon yn cynnwys yr adroddiadau/datganiadau canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwyr – mae hwn yn nodi aelodaeth y Bwrdd, cyfrifoldebau aelodau'r Bwrdd ac yn cynnwys datgeliadau perfformiad statudol amrywiol sy'n ofynnol gan Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae hefyd yn rhestru cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol, yn ogystal â rhoi trosolwg o'r risgiau allweddol y mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn agored iddynt a'r system rheoli risg sydd ar waith (tudalennau 30-35).
- Y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol – mae hwn yn datgelu fframwaith llywodraethu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, gweithgareddau Bwrdd y Cyfarwyddwyr ac yn cynnwys adroddiadau (cryno) blynyddol dau is-bwyllgor y Bwrdd. Mae'r datganiad hwn hefyd yn gwneud datgeliadau yn unol â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru (tudalennau 36-41).
- Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol - mae hwn yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr archwiliad blynyddol a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (i'w gwblhau) (tudalennau 42-44).

1. Adroddiad y Cyfarwyddwyr
Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol ynghyd â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac adroddiad yr archwilydd annibynnol ar gyfer Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Mae'r wybodaeth ganlynol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 i'w chael yn yr adran ganlynol o'r adroddiad blynyddol

- Mae manylion amcanion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, datblygiadau'r dyfodol a digwyddiadau arwyddocaol ers dyddiad y fantolen wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Strategol (tudalennau 4-27).
- Nodir datgeliadau rheoli risg Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar dudalennau 32-34.
- Rhoddir gwybodaeth am y defnydd o offerynnau ariannol gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn nodyn 19 o'r datganiadau ariannol. Trafodir Strwythur Cyfalaf Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn y datganiadau ariannol.

1.1 Difidendau
Ni chaiff unrhyw ddifidendau eu dosbarthu ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 March 2022.

1.2 Cyfarwyddwyr
Roedd y cyfarwyddwyr a oedd mewn swydd yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol fel a ganlyn:

- Yr Athro Syr M Aylward CB*
- Mr C Martin *
- Mr J Evans *
- Mr R P Jones *
- Ms C O'Brien *
- Mr P Max +
- Mr L Richards +
- Ms E Cassin +
- Ms V Bates +
- Yr Athro H Laing +

Corff Hyd Braich Llywodraeth Cymru yw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, a phenodir pob Cyfarwyddwr (Anweithredol) gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol roedd pum cyfarwyddwr (cyfeirnod *) yn eu swyddi ers eu penodiad ar 9 Hydref 2017. Ym mis Medi 2020, ail-benodwyd y Gweinidog y Cyfarwyddwyr hyn am ail dymor o dair blynedd yn y swydd, gan gynnwys y Cadeirydd.

Penodwyd pump o Gyfarwyddwyr (cyfeirnod +) yn llwyddiannus gan y Gweinidog i lenwi swyddi gwag yn dilyn proses benodi gyhoeddus. Penodwyd y Cyfarwyddwyr hyn o 1 Ionawr 2021, am dymor tair blynedd.

1.3 Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr
Dylid darllen y canlynol ar y cyd â chyfrifoldebau'r archwilydd allanol fel y nodir yn eu hadroddiad ar dudalen 42.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'r cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. O dan gyfraith cwmnïau, rhaid i'r Cyfarwyddwyr beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cwmni ac o'i elw neu golled am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol1 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarwyddwyr:

- dewis a chymhwyso polisïau cyfrifyddu yn briodol;
- cyflwyno gwybodaeth, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu, mewn ffordd sy'n darparu gwybodaeth berthnasol, dibynadwy, cymharol a dealladwy;
- darparu datgeliadau ychwanegol pan fo cydymffurfiaeth â'r gofynion penodol mewn IFRSs yn annigonol i alluogi defnyddwyr i ddeall effaith trafodion penodol, digwyddiadau ac amodau eraill ar sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol yr endid; a
- gwneud asesiad o allu'r Cwmni i barhau fel busnes gweithredol.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y Cwmni a datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y Cwmni a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Cwmni ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

1.4 Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr o ran cofnodion cyfrifyddu a rheolaeth fewnol
Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y Cwmni, a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006.

Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall. Daeth archwiliad mewnol a gynhaliwyd yn 2021/22 i'r casgliad fod trefniadau gwrth-dwyll Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gadarn a rhoddwyd sgôr "sicrwydd sylweddol".

Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu'r broses o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae pob un o'r Cyfarwyddwyr, y mae eu henwau wedi'u rhestru ar dudalen 30 o'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol, yn cadarnhau hyd eithaf eu gwybodaeth:

- Bod y datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol, yn rhoi darlun cywir a theg o'r asedau, y rhwymedigaethau, y sefyllfa ariannol ac elw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru;
- Mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys adolygiad teg o ddatblygiad a pherfformiad y busnes a sefyllfa Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau a'r ansicrwydd y mae'n eu hwynebu; a
- Mae'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol, gyda'i gilydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer rhanddeiliaid Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i asesu sefyllfa, perfformiad, model busnes a strategaeth y Cwmni.

1.5 Cwmni gweithredol a digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn adrodd
Wrth fabwysiadu'r sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r Datganiadau Ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried y gweithgareddau busnes yn ogystal â phrif risgiau ac ansicrwydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru fel y nodir yn Fframwaith Sicrwydd Bwrdd y Cwmni a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Derbyniwyd y cadarnhad ffurfiol am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru hyd at ddiwedd Mawrth 2023 ar 25 Ebrill 2022 ac mae'r Bwrdd yn fodlon dod i'r casgliad i'r Cwmni fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r adroddiadau blynyddol a chyfrifon.

1.6 Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn
Rhoddir mwy o wybodaeth am ddigwyddiadau ers diwedd y cyfnod yn yr adroddiad ac yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

1.7 Asedau anghyfredol
Dangosir manylion asedau anghyfredol, sef gosodiadau a ffitiadau, yn Nodyn 11 i'r datganiadau ariannol. Dangosir manylion asedau anniriaethol yn Nodyn 12.

1.8 Rheoli risg
Ein nod cyffredinol yw gwneud rheoli risg yn effeithiol yn rhan annatod o ddiwylliant Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i ddull rhagweithiol o reoli risg. Mae'n cydnabod gwerth cynnal diwylliant rheoli risg effeithiol, gan geisio nodi, dadansoddi a rheoli'r risgiau y mae'n eu hwynebu.

Mae'r amgylchedd y mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi gweithredu ynddo wedi newid yn sylweddol ers Mawrth 2020. Er gwaethaf effaith y pandemig Covid-19, mae rheoli risg cadarn a llywodraethu cryf wedi parhau.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n atebol am reoli risgiau sy'n ymwneud â gweithrediadau'r Cwmni, gan gynnwys: gwerthuso a phennu natur a maint y risgiau y mae'n fodlon eu cymryd wrth gyflawni amcanion strategol y Cwmni a chynnal rheolaeth risg a rheolaethau mewnol cadarn ac effeithiol.

Mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff hyn ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol penodedig a rheolwyr Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, ynghyd â sylwadau ac argymhellion a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac archwilwyr mewnol yn eu hadroddiadau

Mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru strwythurau, polisïau a gweithdrefnau a gynlluniwyd i alluogi'r broses o gyflawni'r amcanion hyn, tra'n rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo. Adolygir y rhain yn rheolaidd.

Yn ystod 2021/22, mae gwaith wedi'i wneud yn ystod i wella system risg a sicrwydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ymhellach. Gan adeiladu ar ddatblygiadau yn 2020/21, cwblhawyd Polisi Rheoli Risg diwygiedig (a gweithdrefn ategol). Ymgorfforwyd hyn yn llawn gan Fframwaith Rheoli Risg Bwrdd Hwb Gwyddorau Bywyd, y diwygiwyd y model i'w osod fel cyfrwng allweddol ar gyfer system risg a sicrwydd integredig (rheolaeth fewnol) y Cwmni ac fel offeryn ymarferol i lywio agenda'r bwrdd a'r pwyllgorau. Fel rhan o'r broses hon, diwygiwyd risgiau strategol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn unol â chynllunio busnes strategol. Yn dilyn ymgysylltu â Bwrdd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, cymeradwywyd y Polisi Rheoli Risg, Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (a risgiau strategol diwygiedig y Cwmni) gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 11 Tachwedd 2021.

Elfen arall o gryfhau system risg a sicrwydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru oedd mynegiant y Bwrdd o'i archwaeth risg. Cynhaliwyd sgyrsiau manwl drwy ymgysylltu â'r Bwrdd, a bennodd ei archwaeth ochr yn ochr â nifer o feysydd risg a nodwyd. Bwriedir i'r datganiad fod yn ganllaw i berchnogion risg i'w hysbysu sut y maent yn rheoli eu risg, gyda sgoriau risg targed ar gyfer pob math o risg yn cael eu gosod. Cymeradwywyd y Datganiad Archwaeth Risg Blynyddol cyntaf gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 11 Tachwedd 2021.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i integreiddio'r polisi newydd, Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r datganiad archwaeth risg ymhellach ar draws gweithrediadau busnes y Cwmni. Bydd hyfforddiant risg yn parhau i gael ei ddarparu er mwyn sicrhau cysondeb o ran dull, ymgorfforiad cryfach mewn prosesau gwneud penderfyniadau a rheoli rhaglenni a phrosiectau fel rhan o aeddfedrwydd diwylliant rheoli risg gweithredol.

1.9 Prif risgiau ac ansicrwydd
Nodir y prif risgiau strategol yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, gyda'r sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y rheolaethau wedi'u mapio'n unol â hynny. Nodir Risgiau Corfforaethol ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol sy'n cael ei monitro'n barhaus gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac a dderbynnir ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a Bwrdd y Cyfarwyddwyr ddwywaith y flwyddyn.

Nodir y prif risigiau strategol ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, sef:

Adnoddau Annigonol	Y risg y bydd adnoddau ariannol ac anariannol yn annigonol i gyflawni amcanion strategol y Cwmni. Bydd hyn yn cael ei achosi gan fethiant i recriwtio pobl, gyda'r sgiliau angenrheidiol, i lenwi swyddi gwag a llai o gyllid. Yr effaith fydd methu â chyflawni cynlluniau busnes y cytunwyd arnynt a bodloni Dangosyddion Perfformiad Allweddol.
Bodloni Disgwyliadau	Y risg na fydd canlyniadau gweithgareddau busnes y Cwmni (e.e. rhaglenni a phrosiectau) yn bodloni disgwyliadau rhanddeiliaid. Bydd hyn yn cael ei achosi gan gam-aliniad â nodau ac amcanion rhanddeiliaid ar draws y system iechyd a gofal, o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael. Effaith hyn fydd methiant i effeithio ar newid systemig.
Gwireddu Buddion	Y risg y bydd yr atebion a fabwysiadwyd ddim yn cael eu gwireddu o fewn amserlen briodol. Bydd hyn yn cael ei achosi gan ddiffyg tystiolaeth o ganlyniadau hydredol y prosiectau, rhaglenni ac atebion a gefnogir (ac a arweinir) gan y Cwmni. Effaith hyn fydd gallu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i ddangos ei werth i randdeiliaid, Gwerth am Arian i Lywodraeth Cymru a thystiolaeth o effaith newid ar gyfer y sector iechyd a gofal.
Llywodraethu a Methiant Cydymffurfio	Y risg na fydd systemau a phrosesau llywodraethu yn galluogi gweithrediadau busnes effeithiol ac effeithlon. Bydd hyn yn cael ei achosi gan bolisïau a gweithdrefnau sydd wedi dyddio, bylchau yn y system rheolaeth fewnol a phrosesau busnes, a methiant gweithwyr i gydymffurfio. Effaith hyn fyddai methiant i fynd ati i alluogi'r broses o gyflawni amcanion strategol, stiwardiaeth ariannol wael neu fethiant i gydymffurfio â gofynion statudol, rheoliadol a deddfwriaethol.
Aeddfedrwydd y System	Y risg na fydd y Cwmni yn gallu hwyluso newid a fydd yn cael effaith ar iechyd a gofal cymdeithas, fel y nodir yn ei gynlluniau busnes strategol. Bydd hyn yn cael ei achosi gan aeddfedrwydd y system a diffyg cydlyniant a chydlyniad yn y gwyddorau bywyd / arloesedd yng Nghymru. Effaith hyn fydd methiant i gyflawni nodau strategol y sefydliad a diffyg gwybodaeth o fewn y sector i lywio'r broses o fabwysiadu arloesedd.
Dim digon o adnoddau allanol / partneriaeth yn methu	Y risg efallai na fydd partneriaid a rhanddeiliaid y Cwmni ar draws y system iechyd a gofal yn gallu mabwysiadu arloesedd. Bydd hyn yn cael ei achosi gan bartneriaid a rhanddeiliaid heb ddigon o adnoddau neu gapasiti allanol. Effaith hyn fydd methiant partneriaethau a mentrau a llwyddiant amcanion strategol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.
Methiant i adeiladu rôl ddylanwadol	Y risg na fydd y Cwmni yn datblygu lefel ddigonol o ddylanwad systemig i lunio a chefnogi'r agenda arloesi ar draws iechyd a gofal yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei achosi gan ddiffyg hanes llwyddiannus o gyflawni prosiectau arloesi gydag effaith sylweddol ac ymgysylltu a chyfathrebu prin. Effaith hyn fydd methu â chyflawni amcanion strategol y sefydliad.

Mae'r sefydliad yn parhau i gadw cofrestr risg gorfforaethol a gweithredol yn unol â phensaernïaeth risg Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Mae'r cofrestrau hyn yn cael eu harchwilio a'u diweddaru'n rheolaidd, gyda sicrwydd yn cael ei roi drwy Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r adroddiadau bwrdd/pwyllgor.

1.10 Amcanion a Pholisïau Rheoli Risg Ariannol
Y prif risgiau ariannol ar gyfer Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yw rheoli llif arian a chyllidebu. I'r ddau, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn cynnal balans arian parod iach ac yn defnyddio rheolaeth gyllidebol gref yn unol â gofynion y Ddogfen Fframwaith gyda Llywodraeth Cymru. Mae Rheoliadau Ariannol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn darparu'r paramedrau gweithredu ar gyfer rheolaeth ariannol. Daeth adolygiad archwilio mewnol o gydymffurfiaeth â'r Rheoliadau i'r casgliad bod trefniadau cadarn ar waith a rhoddwyd sgôr "sicrwydd sylweddol".

O ran rheoli llif arian parod, nid oes unrhyw risg credyd sylweddol ac mae'r Cwmni yn cadw balans arian parod iach. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gyda sicrwydd yn ei le gan Lywodraeth Cymru, roedd gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru falans arian parod positif o £3.5m, ac felly, nid ystyrir risgiau credyd, hylifedd a llif arian yn risg sylweddol i'r Cwmni.

Dyfarnodd adolygiad archwilio mewnol o reolaeth gyllidebol a rheolaeth ariannol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn 2021/22 sgôr "sicrwydd sylweddol".

1.11 Perfformiad Ariannol ar gyfer y Flwyddyn
Dangosir canlyniadau'r flwyddyn o dudalen 45 ymlaen.

Mae datganiadau ariannol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn dangos ar hyn o bryd bod gan y Cwmni £12k o arian wrth gefn.

Mae perfformiad yn erbyn cylch gwaith yn cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru ac mae'r Cwmni yn darparu adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'r broses fonitro hon. Mae'n ofynnol i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru reoli ei berfformiad ariannol o fewn y gyllideb y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru, nodir manylion pellach am hyn yn y Llythyr Cylch Gwaith a'r Ddogfen Fframwaith y cytunwyd arnynt yn flynyddol.

Mae'r Ddogfen Fframwaith yn caniatáu i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru gario drosodd o un flwyddyn i'r llall unrhyw falansau arian parod a dynnwyd ond heb eu gwario o hyd at 2% o gyfanswm y gyllideb flynyddol gros y cytunwyd arni (fel y nodir yn y Llythyr Cylch Gwaith ac heb gynnwys incwm a ystyrir yn gronfeydd preifat). Mae'n ofynnol i unrhyw gynnig i gario symiau uwchlaw'r swm hwn drosodd gael ei gytuno â Llywodraeth Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22:

Sylwer: Nid yw Asedau a Rhwymedigaethau yn cynnwys y ffigurau'r Rhaglen Cyflymu.

Cyfanswm y gyllideb gros y cytunwyd arni	£3.5m
Cario drosodd a ganiateir 2%	£70k
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth 2022	£3.5m
Asedau cyfredol - symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill ar 31 Mawrth 2022	£2.9k
Asedau cyfredol - symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill ar 31 Mawrth 2022	£6.4k
Balans arian parod heb ei wario ar 31 Mawrth 2022	£29k

1.12 Arian dros ben i'w dalu'n ôl i Lywodraeth Cymru
Mae arian parod 2021/22 y caniateir ei gario drosodd (£70k) yn cael ei gyfrifo fel 2% o'r gyllideb a roddwyd.

Ar ôl cyfrifo'r arian parod ar ddiwedd 2021/22, gan ystyried balansau arian parod, asedau a rhwymedigaethau, mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru falans arian parod positif o £29k, felly mae'n cydymffurfio â throthwy Llywodraeth Cymru ar gario y swm o arian parod a ganiateir sef £70k.

Drwy gydol y flwyddyn, mae rheolwyr a Llywodraeth Cymru wedi parhau i fonitro'r lefel ofynnol o gyllid ac mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud addasiadau yn ystod y flwyddyn i lefel y cyllid lle bo angen, yn unol â hynny defnyddiodd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru gronfeydd gwarged wrth ddarparu gwasanaethau i reoleiddio'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau arian parod a ddelir erbyn diwedd 31 Mawrth 2022, a thrwy hynny gyflawni sefyllfa adennill costau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.

Mae'r Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23 a'r Llythyr Cylch Gwaith sy'n amlinellu'r cynlluniau gweithredol ac ariannol ar gyfer y flwyddyn wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Sicrhawyd incwm digonol i fodloni gwariant y gyllideb am y flwyddyn.

1.13 Perfformiad y Cwmni

Bu 2021/22 yn gyfnod llwyddiannus i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru sydd wedi parhau i atgyfnerthu ei safle fel y prif hwylusydd ar gyfer datblygu a mabwysiadu arloesedd mewn gofal iechyd ledled Cymru. Roedd hyn o fewn cyd-destun heriol wrth i'r sector adfer o'r pandemig coronafeirws.

Mae'r Cwmni wedi olrhain ei gynnydd yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt ac wedi adrodd ar hyn i Lywodraeth Cymru yn chwarterol.

Darperir manylion pellach am berfformiad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn yr Adroddiad Strategol (tudalennau 4-27).

1.14 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal i bob gweithiwr ac ymgeisydd am swydd. Mae wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith lle mae pob unigolyn yn gallu gwneud y defnydd gorau o'i sgiliau, yn rhydd rhag gwahaniaethu neu aflonyddu, a lle mae pob penderfyniad yn seiliedig ar deilyngdod.

Nid yw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gwahaniaethu yn erbyn gweithwyr ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartner sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, crefydd neu gred, rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cynhwysfawr ac mae holl aelodau ein tîm yn cael hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Mae sicrhau ein bod yn denu ac yn cadw'r ystod ehangaf a mwyaf amrywiol o dalent ymhlith gweithwyr y Cwmni yn hanfodol i ddatblygu amgylchedd deinamig a chreadigol a fydd o fudd i'r holl randdeiliaid, ac yn y pen draw, i bobl Cymru. Darperir hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ychwanegol i reolwyr llinell sy'n recriwtio, a hysbysebir yr holl gyfleoedd am swyddi drwy nifer o sianeli i gynyddu cyrhaeddiad y farchnad.

Mae egwyddorion peidio â gwahaniaethu a chyfle cyfartal hefyd yn berthnasol i'r ffordd y mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn trin ymwelwyr, ymgeiswyr am swyddi, cleientiaid, cwsmeriaid a chyflenwyr. Mae hyn yn berthnasol yn y gweithle, y tu allan i'r gweithle (wrth ddelio â chwsmeriaid, cyflenwyr neu gysylltiadau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith, ac ar deithiau neu ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â gwaith gan gynnwys digwyddiadau cymdeithasol).

Mae gan bob gweithiwr ddyletswydd i weithredu yn unol â'n Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a thrin cydweithwyr ag urddas bob amser, a pheidio â gwahaniaethu yn erbyn nac aflonyddu ar weithwyr eraill, waeth beth fo'u statws.

1.15 Polisi Talu Cyflenwyr

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i setlo anfonebau a hawliadau eraill am daliadau yn brydlon. Yn achos nwyddau a gwasanaethau lle mae'r cyflenwad wedi'i gwblhau'n foddhaol, amcan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yw talu o fewn 30 diwrnod o dderbyn yr anfoneb.

1.16 Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cydnabod cyfrifoldeb am, ac ymrwymiad i, warchod yr amgylchedd ar bob lefel. Mae'n fraint i ni fod mewn swyddfa yng Nghaerdydd sy'n effeithlon o ran ynni. Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn anelu i sicrhau ein bod yn dilyn arferion gorau drwy gydol gweithrediad y busnes ar draws pob lleoliad. Cyflwynodd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wybodaeth amgylcheddol i Lywodraeth Cymru yn 2022, sy'n nodi ôl troed carbon y sefydliad yn ogystal ag effeithiau amgylcheddol eraill.

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy a'r saith nod llesiant rhyng-gysylltiedig. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo yn ystod 2021/22 i ymgorffori'r Ddeddf, ei hegwyddorion a'i ffyrdd o weithio yn fwy cadarn o fewn y sefydliad.

Mae hyn wedi cynnwys datblygu datganiad ac amcanion llesiant cyntaf Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau strategol. Bydd y Ddeddf hefyd yn cael ei hintegreiddio yn y cynllun strategol hirdymor, fel sbardun deddfwriaethol allweddol. Mae'r Ddeddf hefyd yn cael ei hystyried wrth i bolisïau gael eu datblygu, gan gynnwys datblygu Polisi Amgylcheddol newydd; a fydd yn cael ei gwblhau yn 2022. Bydd elfennau amgylcheddol a chynaliadwyedd hefyd yn cael eu hystyried fel rhan o ail-asesiad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru o'i ofynion adnoddau ffisegol (gan gynnwys yr eiddo busnes) yn 2022/23.

2. Datganiad Llywodraethu Corfforaethol Blynyddol
Llywodraethu Corfforaethol yw'r system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau.

Mae'r Datganiad Llywodraethu isod yn dod â'r holl ddatgeliadau am faterion sy'n ymwneud â risg a rheolaeth llywodraethu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru at ei gilydd mewn un lle. Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol sy'n amlinellu sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb o ran rheoli adnoddau'r Cwmni drwy gydol y flwyddyn.

2.1 Bwrdd y Cyfarwyddwyr
Mae'r Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am lywodraethu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a'i fod yn cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU. Rôl y Bwrdd yw bodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol yn ei le ac i sicrhau, drwy'r Prif Swyddog Gweithredol, bod y Cwmni yn gweithredu o fewn y fframwaith polisi a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae ganddo hefyd gyfrifoldeb am gyfeiriad strategol, diwylliant sefydliadol a chyflawni nodau ac amcanion y Cwmni yn llwyddiannus.

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu dau Bwyllgor Bwrdd sefydlog, a gadeirir gan Gyfarwyddwyr Anweithredol, sydd â rolau allweddol mewn perthynas â'r system lywodraethu a sicrwydd, gwneud penderfyniadau, craffu, trafodaethau datblygu, asesu risgiau cyfredol a monitro perfformiad.

Mae Ffigur 1 yn manylu ar y berthynas rhwng y Bwrdd a'i bwyllgorau, ynghyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (Gweithredol).

Ffigur 1: Crynodeb o'r Fframwaith Llywodraethu



Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, roedd y Bwrdd yn cynnwys deg o Gyfarwyddwr a benodwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Cadeirydd yn swydd lle cynigir tâl, fel y mae swyddi pob Cyfarwyddwr. Cyfarfu'r Bwrdd saith gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol. Yn ystod y flwyddyn, roedd ffocws y Bwrdd yn cynnwys:

- perfformiad y Cwmni ochr yn ochr â Chynllun Busnes 2021/22
- datblygiad Cynlluniau Blynyddol a Thymor Llywodraeth y Cwmni;

- gweithgaredd busnes a wneir o fewn y Meysydd Effaith a dwy raglen (Cyflymu ac Ecosystem Iechyd Digidol Cymru);
- ystyried a chymeradwo Cynllun Busnes Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar gyfer 2022/23;
- parhad busnes y Cwmni yn ystod adferiad pandemig Covid-19 (a materion llesiant gweithwyr cysylltiedig).

Cadwodd y Bwrdd ei oruchwyliaeth o gyllid y cwmni a derbyniodd y Cyfrifon a'r Adroddiad Rheoli ym mhob cyfarfod.

2.1.1 Cadeirydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

Yn ystod y flwyddyn, roedd y Cadeirydd, yr Athro Syr Mansel Aylward CB, yn anhwylus, a gwnaed trefniadau i Dr Chris Martin, y Dirprwy Gadeirydd, ymgymryd â'r rôl hon dros-dro. Ar ôl ymgynghori â'r gangen noddi yn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, cytunodd Llywodraeth Cymru y byddai Syr Mansel yn camu i lawr o'i rôl fel Cadeirydd. Olynwyd ef gan Dr Martin ar 4 Awst 2021. Mae Syr Mansel yn parhau'n gyfarwyddwr anweithredol ar y Bwrdd tan 31 Mawrth 2022.

2.1.2 Datblygiad ac Effeithiolrwydd y Bwrdd

Yn unol â'r egwyddor llywodraethu da o welliant parhaus, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i edrych ar ei effeithiolrwydd. Cynhaliodd y Bwrdd chwe sesiwn ddatblygu a drefnwyd yn 2021/22 i drafod materion strategol yn unol â Chynllun Datblygu'r Bwrdd a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 31 Mawrth 2021. Sicrhaodd y cynllun hwn fod y Bwrdd yn cyfrannu at gynllunio a datblygiad strategol y Cwmni, rheolaeth ac archwaeth risg ystyriol, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, cafodd yr Aelodau hefyd sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth sy'n cyd-fynd â'u rôl a'u cyfrifoldebau, gan gynnwys cydnerthedd seiber a'r Gymraeg. Roedd hyn hefyd yn cynnwys ystyried sut gallai'r Cwmni ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei weithgareddau a'i ddulliau gweithio. Addaswyd y cynllun hwn drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod y Bwrdd yn ystyried materion cyfredol ar adegau priodol.

2.1.3 Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Cynhaliodd y Bwrdd (a phob pwyllgor) hunanasesiad cynhwysfawr o'i effeithiolrwydd. Roedd hyn yn cynnwys ystyried ei brosesau gweinyddol, y wybodaeth y mae'n ei derbyn, anghenion sgiliau a datblygu ei aelodau a'i gydymffurfiaeth â'i ddogfen Fframwaith a'i Gylch Gorchwyl. Ymgymerwyd â'r ymarfer hwn tua diwedd y flwyddyn ariannol, a thrafodwyd y canlyniadau a bu'n bosibl nodi camau gwella. Roedd hunanasesiadau'r pwyllgor hefyd wedi llywio'r adolygiad o'u cylch gorchwyl a'u cynlluniau gwaith priodol.

2.1.4 Buddiannau'r Bwrdd

Cedwir cofrestr o fuddiannau cyfarwyddwyr a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod gwrthdaro buddiannau posibl yn cael eu nodi. Gofynnir i aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau ddatgelu buddiannau fel eitem safonol ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod ffurfiol.

Mae hyn yn unol â pholisi a gweithdrefn y Cwmni ar gyfer rheoli gwrthdaro a datgan buddiannau, rhoddion, lletygarwch a nawdd.

2.2 Pwyllgor Archwilio a Risg

Roedd y Pwyllgor yn cynnwys tri Chyfarwyddwr a gyfarfu bum gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r Archwilydd Mewnol (TIAA a benodwyd ym mis Mehefin 2019) ac Archwilwyr Allanol (penodiad Archwilio Cymru gan Lywodraeth Cymru) yn mynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn cyflawni ei gyfrifoldebau dros faterion rheoli risg, rheolaeth fewnol, archwilio mewnol, archwiliad statudol o ddatganiadau ariannol cyfunol a llywodraethu ehangach Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru drwy ei gylch gorchwyl. Cafodd y rhain eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor ym mis Chwefror 2022, ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. Cadarnhawyd y gymeradwyaeth hon gan y Bwrdd ar 30 Mawrth 2022.

Yn ystod y flwyddyn, roedd ffocws y Pwyllgor yn cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli risg a risgiau allweddol. Roedd hyn yn cynnwys ystyried a chymeradwyo polisi a gweithdrefn rheoli risg diwygiedig, model newydd ar gyfer Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r datganiad cyntaf o archwaeth risg.
- adolygu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau llywodraethu derbyn adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol
- trefniadau rheoli rhaglenni a phrosiectau (canlyniadau archwiliad mewnol
- parhad busnes a chydnerthedd seiber (a threfniadau ymateb i ddigwyddiadau).

Am fwy o fanylion am system risg a sicrwydd a phroffil risg Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, gweler Adroddiad y Cyfarwyddwr, tudalennau 30-35.

2.3 Pwyllgor Adnoddau Dynol a Thâl

Roedd y Pwyllgor yn cynnwys pedwar Cyfarwyddwr a gyfarfu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r Pwyllgor yn rhoi pwyslais ar ymrwymiad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i les a phwysigrwydd recriwtio, cadw a datblygu gweithwyr. Yn ystod y flwyddyn roedd pwyslais y Pwyllgor yn cynnwys

- sicrhau bod polisïau cyflogaeth priodol yn cael eu mabwysiadu a'u dilyn.
- ystyried ac adolygu polisïau a buddion allweddol gweithwyr
- sicrhau dyfarniadau tâl a budd-daliadau priodol
- datblygu strategaeth gyflogau.

Adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor ei Gylch Gorchwyl ar gyfer blwyddyn adrodd 2022/23 yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2022 (a gadarnhawyd gan y Bwrdd ar 30 Mawrth 2022).

2.4 Presenoldeb y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Dangosir presenoldeb y Cyfarwyddwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn y tabl isod. Roedd y Prif Swyddog Gweithredol yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr * Cadeirydd hyd at 4 Awst 2021 ^ Cadeirydd o 4 Awst 2021	**26 Mai 2021**	**28 Gor 2021**	**29 Med 2021**	**24 Tach 2021**	**15 Rha 2021**	**26 Ion 2022**	**31 Maw 2022**
Yr Athro Syr Mansel Aylward CB (Cadeirydd) *	N	N	N	N	N	N	N
Dr Chris Martin (Cadeirydd) ^	I	I	I	I	I	I	I
Mr Jarred Evans	N	N	I	I	I	I	N
Ms Catherine O'Brien	I	I	N	I	I	I	I
Mr Rupert Jones	I	I	I	I	I	I	N
Mr Peter Max	I	I	I	I	I	I	I
Yr Athro Hamish Laing	I	I	I	I	I	I	I
Ms Victoria Bates	I	I	I	I	I	I	I
Ms Erica Cassin	I	I	I	I	I	I	I
Mr Len Richards	I	I	I	I	I	I	I

Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	**28 Ebr 2021**	**27 Gor 2021**	**11 Tach 2021**	**15 Rha 2021**	**26 Ion 2022**
Mr Peter Max (Cadeirydd)	I	I	I	I	I
Ms Catherine O'Brien	I	I	I	I	I
Mr Rupert Jones	I	I	I	I	I

Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth	1 Gor 2021	15 Rha 2021	26 Ion 2022	9 Maw 2022
Ms Erica Cassin (Cadeirydd)	I	I	I	I
Dr Chris Martin	I	I	I	I
Mr Rupert Jones	I	I	I	I
Ms Catherine O'Brien	N	I	I	I

Sylwer: Mae'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Thâl yn cael ei alw'n ad hoc lle bo angen. O 2022/23 ymlaen bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwarter.

2.5 Uwch Dîm Arweinyddiaeth
Cafodd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ei arwain gan y Prif Weithredwr, Ms Cari-Anne Quinn, a benodwyd yn mis Hydref 2018.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a chytuno ar faterion corfforaethol a gweithredol gan fod cyfrifoldeb llawn am weithrediad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr gan y Bwrdd. Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn adrodd ar ei berfformiad i Lywodraeth Cymru yn unol â'r fframwaith rheoli a'r cylch gwaith.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chyfarwyddwr Gweithrediadau. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, sy'n cyfarfod yn wythnosol, yn gyfrifol am redeg Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru o ddydd i ddydd yn unol â'r strategaeth a'r adroddiadau y cytunwyd arnynt ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd.

Cefnogir y Prif Weithredwr a Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn nhrefn lywodraethu'r sefydliad gan y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, Risg a Chydymffurfiaeth.

2.6 Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU
Mae'n ofynnol i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru gydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y datganiad llywodraethu corfforaethol hwn yn rhoi asesiad o sut mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod fel y maent yn berthnasol i Gorff Hyd Braich yng Nghymru. Dylid nodi nad yw holl elfennau adrodd y Cod wedi'u hamlinellu yn y datganiad llywodraethu hwn ond yn cael eu hadrodd yn llawnach yn yr Adroddiad Blynyddol ehangach. Ni adroddwyd am unrhyw wyriadau oddi wrth y Cod Llywodraethu Corfforaethol.

2.7 Ansawdd Data
Teimlai'r Bwrdd fod y wybodaeth a gafodd a'i bwyllgorau allweddol yn cefnogi craffu a sicrwydd yn gyffredinol. Mae sicrwydd yn erbyn risgiau strategol hefyd yn cael ei fapio a'i fonitro drwy Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Yn wir, yn ei hunanasesiad blynyddol mae'r Bwrdd (a'i bwyllgorau) wedi nodi bod adroddiadau a gweinyddiaeth y bwrdd a'r pwyllgorau wedi'u cryfhau yn ystod 2021/22. Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn bwrw golwg ar ansawdd y data a'r wybodaeth a dderbyniwyd ar ddiwedd pob cyfarfod, fel rhan o'r gwaith parhaus o gynnal ei effeithiolrwydd.

2.8 Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Data
Mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru drefniadau sefydledig ar gyfer llywodraethu gwybodaeth, sy'n cynnwys ystyriaethau diogelu data a diogelwch gwybodaeth (gan gynnwys y dirwedd seiberddiogelwch bresennol) i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei phrosesu yn unol â chyfraith llywodraethu gwybodaeth berthnasol, rheoliadau a chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn rhoi trosolwg, cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd o ran materion llywodraethu gwybodaeth. Darparodd adolygiad archwilio mewnol o ddiogelu data sgôr "sicrwydd sylweddol".

Yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) ar gyfer 2021/22 oedd y Cadeirydd, Dr Chris Martin. Rôl SIRO yw eiriolwr risg gwybodaeth ar y Bwrdd. Mae'r SIRO yn gyfrifol am sefydlu fframwaith atebolrwydd o fewn y sefydliadau i gyflawni dull cyson a chynhwysfawr o asesu risg gwybodaeth. Mae digwyddiadau llywodraethu gwybodaeth a 'methiannau a fu bron â digwydd' yn cael eu hadrodd drwy system rheoli digwyddiadau'r sefydliad.

Adroddir am unrhyw ddigwyddiadau difrifol yn llawn i'r SIRO a chynhelir ymchwiliadau Dadansoddi Gwraidd y Broblem, a chyflwynir y canlyniad i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r Prif Weithredwr (fel y bo'n briodol) sy'n sicrhau bod y SIRO yn ymwybodol o gasgliad yr ymchwiliad. Ni wnaethom adrodd am unrhyw ddiffygion diogelwch data i'r ICO yn ystod 2021/22.

2.9 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth
Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl mynediad cyhoeddus i amrywiaeth o gofnodion a gwybodaeth a gedwir gan gyrff cyhoeddus ac yn ymrwymiad i fod yn fwy agored a thryloyw yn y sector cyhoeddus. Datblygodd a chyflwynodd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Bolisi Rhyddid Gwybodaeth newydd, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 11 Tachwedd 2021. Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru hefyd yn cyhoeddi dosbarthiadau allweddol o wybodaeth yn rhagweithiol drwy ei Gynllun Cyhoeddi, yn unol â'r model a nodir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Darparodd adolygiad archwilio mewnol o'r trefniadau sgôr "sicrwydd sylweddol".

Derbyniodd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru dau gais Rhyddid Gwybodaeth yn 2021/22. Roedd y cyntaf, ym mis Gorffennaf 2021, yn ymwneud â phroses gaffael am ddyfarnu contract i gyflenwr. Darparwyd ymateb, gydag eithriadau yn cael eu cymhwyso yn unol â hynny. Trosglwyddwyd yr ail gais i gorff cyhoeddus arall gan nad oedd gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru y wybodaeth y gofynnwyd amdani.

2.10 Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban
Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cyfathrebu ac yn atgoffa pob gweithiwr am chwythu'r chwiban, ac mae Polisi Chwythu'r Chwiban yn ei le. Darperir hyfforddiant drwy'r broses gynefino, yn flynyddol drwy hyfforddiant ar-lein y Cwmni a'i drafod yn achlysurol mewn cyfarfodydd staff.

Ni fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban yn 2021/22.

2.11 Iechyd a Diogelwch
Mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru System Rheoli Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (OHS) gadarn sy'n cynnwys polisïau a phrosesau iechyd a diogelwch, systemau, hyfforddiant, a chofnodion, ac sy'n ystyried ystyriaethau iechyd a diogelwch mewn prosesau busnes. Caiff risgiau iechyd a diogelwch eu nodi a'u rheoli drwy'r System Rheoli Risg a chynhelir asesiadau risg a'u hadolygu lle bo'n briodol.

Mae gan y Prif Swyddog Gweithredol gyfrifoldeb cyffredinol am reoli iechyd a diogelwch. Mae Iechyd a Diogelwch yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Uwch Dîm Rheoli. Mae gan y Rheolwr Swyddfa gyfrifoldeb rheoli o ddydd i ddydd ac mae gan y Rheolwr gymwysterau iechyd a diogelwch. Mae gweithgarwch cydymffurfio hefyd yn cael ei fonitro gan y swyddogaeth Lywodraethu.

Yn ystod 2021/22, mae risgiau iechyd a diogelwch parhaus mewn perthynas â'r pandemig Covid-19 wedi'u rheoli a'u monitro ar y Cofrestrau Risg Corfforaethol a Gweithredol, yn ogystal â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Mae asesiad risg cynhwysfawr a chynllun gweithredu hefyd wedi'u cynnal ers mis Mawrth 2020. Mae mesurau diogelwch wedi'u sefydlu i leihau lledaeniad coronafeirws yn y gweithle, drwy gadw pellter cymdeithasol, mwy o weithdrefnau hylendid a gweithio o bell. Addaswyd y mesurau hyn drwy gydol y pandemig, yn unol â chyngor a chanllawiau iechyd cyhoeddus a roddwyd i weithwyr yn rheolaidd.

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Thâl yn derbyn sicrwydd ar y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol drwy adroddiadau gweithredol a pherfformiad. Bydd adroddiadau sicrwydd yn cael eu cryfhau yn 2022/23 drwy ddarparu adroddiad iechyd a diogelwch chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno mewn ymateb i argymhelliad yn dilyn archwiliad mewnol yn 2021/22, a roddodd sgôr "sicrwydd sylweddol" yn gyffredinol.

2.12 Casgliadau
Rwy'n fodlon, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, bod fframwaith llywodraethu cymesur a chadarn a system o reolaethau mewnol wedi bod ar waith. Roeddent yn cefnogi'r broses o gyflawni nodau ac amcanion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru; hwyluso'r broses o arfer swyddogaethau'r Cwmni yn effeithiol, a diogelu cronfeydd ac asedau cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn bersonol gyfrifol amdanynt. Mae'r materion llywodraethu a rheolaeth hyn yn unol â'r cyfrifoldebau yn y Ddogfen Fframwaith a roddwyd i ni gan Lywodraeth Cymru.

Cari-Anne Quinn
Prif Swyddog Gweithredol
Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf

Archwilydd
Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y Cwmni a benodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Datganiad datgeliad i'r archwilydd
Cyn belled ag y mae pob person a oedd yn gyfarwyddwr ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y Cwmni yn ymwybodol ohoni. Yn ogystal, mae'r cyfarwyddwyr yn unigol wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol y dylent fod wedi'u cymryd fel cyfarwyddwyr er mwyn gwneud eu hunain yn ymwybodol o'r holl wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilydd y Cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Ar ran y bwrdd:

Chris Martin
Cadeirydd

Dyddiad: 27 Gorffennaf 2022

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf

Barn ar ddatganiadau ariannol
Yr wyf wedi archwilio datganiadau ariannol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf am y flwyddyn a ddaeth i ben 2021-22, sy'n cynnwys y Datganiad Incwm Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Newidiadau Ecwiti, Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw cyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol i gydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.
Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion y cwmni ar 31 Mawrth 2022;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol ac i gydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006;
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Barn ar reoleidd-dra
Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail y farn
Fe gynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith gymwys a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Yr wyf yn annibynnol ar y cwmni yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol
Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, yr wyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd sail cyfrif busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'i awdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall
Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm adroddiad i fel archwilydd arnyn nhw. Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a dderbyniwyd yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos bod camddatganiad o bwys. Os wyf yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau tybiedig o bwys, mae'n ofynnol i mi bennu a oes camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad o bwys. Ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os byddwn yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill a bennir gan Ddeddf Cwmnïau 2006
Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed wrth gynnal fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi, yn gyson â'r datganiadau ariannol; a
- mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr wedi cael eu paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion y mae'n ofynnol i mi adrodd arnyn nhw drwy eithriad
Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau o bwys yn yr adroddiad strategol neu adroddiad y cyfarwyddwyr:
Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn ei gylch yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol i mi, o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, roi gwybod i chi os wyf yn credu:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw; neu os na dderbyniwyd cofnodion digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu
- os na wneir datgeliadau penodol o gyflogau cyfarwyddwyr, a nodir yn y gyfraith; neu
- Nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr am y datganiadau ariannol
Fel yr esboniwyd yn fanylach yn natganiad cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr, y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y cyfarwyddwyr er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu drwy gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, lle bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai y bernir ei fod yn amhriodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol
Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) wastad yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriadau ac ystyrir eu bod yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Yr wyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y cwmni a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf sy'n gysylltiedig â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw a phostio cyfnodolion anarferol; a
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosib y rheolwyr;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r cyfarwyddwyr; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso sail busnes resymegol unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes.

Cyfathrebais hefyd gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll i bob tîm archwilio ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra yn effeithio i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, ac effeithiolrwydd rheolaethau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf. a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

Cyfrifoldebau am reoleidd-dra
Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Yr wyf yn gyfrifol am fynegi barn ynghylch a yw'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adroddiad
Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
1 Awst 2022

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Cyfrifon Ariannol

Cyfrifon Ariannol

HWB GWYDDORAU BYWYD CYMRU CYFYNGEDIG

Datganiad o Incwm Cynhwysfawr

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

	Nodiadau	2022	2021
		£	£
Refeniw	**4**	6,605,500	5,834,478
Elw gros		6,605,500	5,834,478
Incwm gweithredol arall		-	1,464
Treuliau gweinyddol	**5**	(6,578,667)	(5,795,795)
Elw gweithredol	**6**	26,833	40,147
Costau ariannu	**9**	(26,833)	(40,071)
Elw cyn trethiant		-	76
Treth incwm	**10**	-	-
Elw a chyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	**19**	-	76

Mae'r datganiad incwm wedi'i baratoi ar y sail bod pob gweithrediad yn weithrediadau parhaus.

HWB GWYDDORAU BYWYD CYMRU CYFYNGEDIG

Datganiad am Newidiadau mewn Eciwti
Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

	Retained earnings
	£
Balans ar 1 Ebrill 2020	12,183
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021:	
Elw a chyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	76
Balans ar 31 Mawrth 2021	12,259
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022:	
Balas ar 31 Mawrth 2022	12,259

HWB GWYDDORAU BYWYD CYMRU CYFYNGEDIG

Datganiad am y Sefyllfa Ariannol
Ar 31 Mawrth 2022

	Nodiadau	2022	2021
		£	£
Asedau anghyfredol			
Asedau aniriaethol	**12**	5,083	-
Eiddo, peiriannau ac offer	**11**	329,623	577,136
		334,706	577,136
Asedau cyfredol			
Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill	**14**	2,977,143	2,749,306
Arian parod neu gyfateb i arian parod		3,540,577	868,857
		6,517,720	3,618,163
Cyfanswm asedau		6,852,426	4,195,299
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill	**15**	6,137,485	3,081,415
Rhwymedigaethau prydles	**16**	261,910	247,925
Refeniw gohiriedig	**17**	350,226	501,244
		6,749,621	3,830,584
Rhwymedigaethau cyfredol net		(231,901)	(212,421)
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Rhwymedigaethau prydles	**16**	90,546	352,456
Cyfanswm Rhwymedigaethau		6,840,167	4,183,040
Asedau net		12,259	12,259
Ecwiti			
Enillion a gadwyd	**19**	12,259	12,259

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, roedd gan y Cwmni hawl i gael ei eithrio rhag gofynion Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006 o dan adran 482 o'r Ddeddf hon (cwmnïau dielw sy'n destun archwiliad sector cyhoeddus).

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan fwrdd y cyfarwyddwyr ac awdurdodwyd eu cyhoeddi ar 27 Gorffennaf 2022 a chânt eu harwyddo ar ei ran gan:

Chris Martin
Cadeirydd

Rhif Cofrestru'r Cwmni. 08719645

HWB GWYDDORAU BYWYD CYMRU CYFYNGEDIG

Datganiad Llif Arian

Ar 31 Mawrth 2022

	Nodiadau	2022		2021	
		£	£	£	£
Llif arian o weithgareddau gweithredol Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau	**27**		2,951,561		459,778
Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol			2,951,561		459,778
Gweithgareddau buddsoddi Prynu asedau anniriaethol		(5,083)		-	
Arian parod net a ddefnyddir mewn gweithgareddau buddsoddi			(5,083)		-
Gweithgareddau ariannu Talu rhwymedigaethau prydles		(274,758)		(274,758)	
Arian parod net a ddefnyddir mewn gweithgareddau ariannu			(274,758)		(274,758)
Cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod			2,671,720		185,020
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn			868,857		683,837
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn			3,540,577		868,857

Nodiadau ar y datganiadau ariannol

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

1 Polisïau cyfrifyddu

Gwybodaeth am y cwmni
Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf yn gwmni preifat cyfyngedig drwy warant corfforedig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r swyddfa gofrestredig yn 2il Lawr, 3 Sgwâr y Cynulliad, Cei Britannia, Bae Caerdydd, Caerdydd, Deyrnas Unedig, CF10 4PL.

1.1 Confensiwn cyfrifo
Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd i'w defnyddio yn y DU a'r rhannau hynny o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n adrodd o dan IFRS, ac eithrio fel y nodir yn wahanol.

Paratoir y datganiadau ariannol mewn sterling, sef arian cyfred gweithredol y cwmni. Mae symiau ariannol yn y datganiadau ariannol hyn wedi'u talgrynnu i'r £ agosaf.

1.2 Busnes Gweithredol
Ar adeg cymeradwyo'r datganiadau ariannol, roedd gan y cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan y cwmni adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy. Felly mae'r cyfarwyddwyr yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

1.3 Refeniw
Caiff yr incwm a dderbynnir o Lywodraeth Cymru ei gydnabod yn y flwyddyn y derbynnir yr incwm yn unol â'r Llythyr Cylch Gwaith sy'n amlinellu cyllid ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn fel arfer.

Caiff y grantiau a dderbynnir o Lywodraeth Cymru eu cydnabod am eu gwerth teg lle mae sicrwydd rhesymol y bydd y grant yn cael ei dderbyn ac y bydd y Cwmni yn cydymffurfio â'r amod sydd ynghlwm wrtho.

Caiff incwm o logi desgiau, ystafelloedd cyfarfod ac ystafelloedd cynadledda eu cydnabod ar ddyddiad cynnal y digwyddiad. Cedwir blaendaliadau a delir ymlaen llaw a chydnabyddir incwm ar y dyddiad y cynhelir y digwyddiad.

Mae incwm arall yn ymwneud ag incwm sy'n deillio o ddarparu peiriant coffi i'w ddefnyddio gan ymwelwyr a chaiff ei gydnabod pan y'i derbynnir.

Mae incwm a gwariant llog yn cael eu cronni ar sail amser, drwy gyfeirio at y prifswm sy'n weddill ac ar y gyfradd llog berthnasol

1.4 Asedau anniriaethol heblaw ewyllys da
Mae asedau anniriaethol ag oes gyfyngedig yn cael eu cydnabod ar gost ac yn cael eu mesur wedyn ar gost llai amorteiddiad cronedig a cholledion amhariad cronedig.

Mae amorteiddiad yn cael ei gydnabod er mwyn dileu cost neu brisiad asedau llai eu gwerthoedd gweddilliol dros eu hoes ddefnyddiol ar y seiliau canlynol o 3 blynedd.

Nid yw asedau anniriaethol sy'n cael eu cronni yn cael eu hamorteiddio.

1.5 Eiddo, peiriannau ac offer

Mae eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu mesur i ddechrau ar gost ac yna'n cael eu mesur ar gost neu brisiad, yn glir o ddibrisiant ac unrhyw golledion amhariad. Nid yw'r Cwmni yn grwpio asedau ar gyfer cyfalafu.

Cydnabyddir dibrisiant er mwyn dileu cost neu brisiad asedau llai eu gwerthoedd gweddilliol dros eu hoes ddefnyddiol ar y seiliau canlynol:

- Tir ac adeiladau ar brydles - dros weddill cyfnod y brydles
- Gosodion a ffitiadau - 3 blynedd
- Offer swyddfa - 3 blynedd

Pennir yr enillion neu'r golled sy'n codi wrth waredu ased fel y gwahaniaeth rhwng gwerth y gwerthiant a gwerth cario'r ased, ac fe'i cydnabyddir yn y datganiad incwm.

1.6 Amharu ar asedau diriaethol ac anniriaethol

Ar ddyddiad gorffen pob adroddiad, mae'r cwmni'n adolygu symiau cario ei asedau diriaethol ac anniriaethol i benderfynu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau hynny wedi dioddef colled amhariad. Os oes unrhyw arwydd o'r fath yn bodoli, amcangyfrifir swm adenilladwy'r ased er mwyn pennu maint y golled amhariad (os o gwbl). Lle nad yw'n bosibl amcangyfrif swm adenilladwy ased unigol, mae'r cwmni'n amcangyfrif swm adenilladwy yr uned cynhyrchu arian y mae'r ased yn perthyn iddi.

1.7 Mesur gwerth teg

Mae IFRS 13 yn sefydlu un ffynhonnell o arweiniad ar gyfer pob mesuriad gwerth teg. Nid yw IFRS 13 yn newid pan fo angen i endid ddefnyddio gwerth teg, ond yn hytrach mae'n rhoi arweiniad ar sut i fesur gwerth teg o dan IFRS pan fo angen neu pan ganiateir gwerth teg. Effeithiodd y cyfrifiadau canlyniadol o dan IFRS 13 ar yr egwyddorion y mae'r cwmni'n eu defnyddio i asesu'r gwerth teg, ond nid yw'r asesiad o werth teg o dan IFRS 13 wedi newid y gwerthoedd teg a gydnabyddir neu a ddatgelwyd yn sylweddol. Mae IFRS 13 yn effeithio'n bennaf ar ddatgeliadau'r cwmni. Mae'n gofyn am ddatgeliadau penodol ynglŷn â mesuriadau gwerth teg a datgeliadau o werthoedd teg, y mae rhai ohonynt yn disodli gofynion datgelu cyfredol mewn safonau eraill.

1.8 Arian parod ac sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod ac sy'n cyfateb i arian priod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuon a ddelir gyda banciau, buddsoddiadau hylifol byr dymor eraill gydag aeddfedrwydd gwreiddiol o dri mis neu lai, a gorddrafftiau banc.

1.9 Asedau ariannol

Cydnabyddir asedau ariannol yn natganiad o sefyllfa ariannol y cwmni pan ddaw'r cwmni'n barti i ddarpariaethau cytundebol yr offeryn. Dosberthir asedau ariannol i gategorïau penodol, yn dibynnu ar natur a diben yr asedau ariannol.

Ar y gydnabyddiaeth gychwynnol, caiff asedau ariannol a ddosberthir fel gwerth teg drwy elw a cholled eu mesur ar werth teg a chaiff unrhyw gostau trafodion eu cydnabod fel elw neu golled. Mae asedau ariannol nad ydynt wedi'u dosbarthu fel gwerth teg drwy elw a cholled yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg ynghyd â chostau trafodion.

Benthyciadau a symiau derbyniadwy

Mae symiau derbyniadwy drwy fasnach, benthyciadau a symiau derbyniadwy eraill sydd â thaliadau sefydlog neu benodadwy nad ydynt wedi'u dyfynnu mewn marchnad weithredol yn cael eu dosbarthu fel 'benthyciadau a symiau derbyniadwy'. Mesurir benthyciadau a symiau derbyniadwy ar gost amorteiddiad drwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol, llai unrhyw amhariad.

Cydnabyddir llog drwy gymhwyso'r gyfradd llog effeithiol, ac eithrio symiau derbyniadwy byr dymor pan fyddai cydnabod llog yn amherthnasol. Mae'r dull llog effeithiol yn ddull o gyfrifo cost amorteiddiedig offeryn dyled ac o ddyrannu'r incwm llog dros y cyfnod perthnasol. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n disgowntio'n union dderbyniadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol drwy oes ddisgwyliedig yr offeryn dyled i'r swm cario net ar gydnabyddiaeth gychwynnol.

Amharu ar asedau ariannol
Asesir asedau ariannol, ac eithrio'r rhai a fesurir ar werth teg drwy elw neu golled, ar gyfer dangosyddion amhariad ar bob dyddiad terfyn adrodd.

Caiff asedau ariannol eu hamharu pan fo tystiolaeth wrthrychol, o ganlyniad i un neu fwy o ddigwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl cydnabod yr ased ariannol i ddechrau, yr effeithiwyd ar lifau arian parod amcangyfrifedig y buddsoddiad yn y dyfodol.

Dadgydnabod asedau ariannol
Dim ond pan fydd yr hawliau cytundebol i lif arian yr ased yn dod i ben, neu pan fydd yn trosglwyddo'r ased ariannol a holl risgiau a gwobrau perchnogaeth i endid arall i raddau helaeth y chaiff asedau ariannol eu cydnabod.

1.10 **Rhwymedigaethau ariannol**
Mae'r cwmni'n cydnabod dyled ariannol pan ddaw'r cwmni'n barti i ddarpariaethau cytundebol yr offerynnau. Dosberthir rhwymedigaethau ariannol naill ai fel 'rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy elw neu golled' neu 'rwymedigaethau ariannol eraill'.

Rhwymedigaethau ariannol eraill
Mae rhwymedigaethau ariannol eraill, gan gynnwys benthyciadau, symiau taladwy drwy fasnach a rhwymedigaethau ariannol byr dymor eraill, yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg net o gostau trafodion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gyhoeddi'r rhwymedigaeth ariannol. Cânt eu mesur wedyn ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. At ddibenion pob rhwymedigaeth ariannol, mae costau llog yn cynnwys costau trafodion cychwynnol ac unrhyw bremiwm sy'n daladwy wrth adbrynu, yn ogystal ag unrhyw log neu gwpon sy'n daladwy tra bo'r rhwymedigaeth yn ddyledus.

Dadgydnabod rhwymedigaethau ariannol
Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu dadgydnabod pan, a dim ond pan fydd rhwymedigaethau'r cwmni'n cael eu rhyddhau, eu canslo, neu'n dod i ben.

1.11 **Darpariaethau**
Cydnabyddir darpariaethau pan fo gan y cwmni rwymedigaeth bresennol gyfreithiol neu ddeongliadol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol a'i bod yn debygol y bydd yn ofynnol i'r cwmni setlo'r rhwymedigaeth honno, a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r gydnabyddiaeth sydd ei hangen i setlo'r rhwymedigaeth bresennol ar ddyddiad gorffen yr adrodd, gan ystyried y risgiau a'r ansicrwydd ynglŷn â'r rhwymedigaeth. Lle caiff darpariaeth ei mesur drwy ddefnyddio'r llif arian a amcangyfrifir i setlo'r rhwymedigaeth bresennol, ei swm cario yw gwerth presennol y llif arian hynny.

Pan ddisgwylir i rai neu'r cyfan o'r buddion economaidd sydd eu hangen i setlo darpariaeth gael eu hadennill wrth drydydd parti, cydnabyddir swm derbyniadwy fel ased os yw bron yn sicr y bydd ad-daliad yn cael ei dderbyn ac y gellir mesur swm y derbyniadwy yn ddibynadwy.

1.12 **Buddion i weithwyr**
Mae costau buddion gweithwyr byr dymor yn cael eu cydnabod fel rhwymedigaeth a chost, oni bai bod angen cydnabod y costau hynny fel rhan o gost rhestrau eiddo neu asedau anghyfredol.

Mae cost unrhyw wyliau sydd heb eu defnyddio yn cael ei gydnabod yn y cyfnod y derbynnir gwasanaethau'r gweithiwr.

Caiff buddion terfynu eu cydnabod ar unwaith fel cost pan fo'r cwmni'n amlwg wedi ymrwymo i ddod â chyflogaeth gweithiwr i ben neu i ddarparu buddion terfynu.

1.13 **Buddion ymddeol**

Mae taliadau i gynlluniau buddion ymddeol cyfraniad diffiniedig yn cael eu codi fel traul wrth iddynt ddod yn ddyledus.

1.14 **Prydlesi**

Ar y dechrau, mae'r cwmni'n asesu a yw contract yn, neu'n cynnwys, prydles o fewn cwmpas IFRS 16. Mae contract yn brydles, neu'n cynnwys prydles, os yw'r contract yn cyfleu'r hawl i reoli'r defnydd o ased a nodwyd am gyfnod o amser yn gyfnewid am ystyriaeth. Pan fo ased diriaethol yn cael ei brynu drwy brydles, mae'r cwmni'n cydnabod ased hawl i'w ddefnyddio a rhwymedigaeth y brydles ar ddyddiad cychwyn y brydles. Mae asedau hawl i'w ddefnyddio wedi'u cynnwys o fewn eiddo, peiriannau ac offer, ar wahân i'r rhai sy'n bodloni'r diffiniad o eiddo buddsoddi.

Mae'r ased hawl i'w ddefnyddio yn cael ei fesur i ddechrau ar gost, sy'n cynnwys swm cychwynnol rhwymedigaeth y brydles wedi'i addasu ar gyfer unrhyw daliadau prydles a wnaed ar y dyddiad cychwyn neu cyn hynny yn ogystal ag unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol ac amcangyfrif o gost rhwymedigaethau i ddatgymalu, symud, adnewyddu neu adfer yr ased gwaelodol a'r safle y mae wedi'i leoli arno, llai unrhyw gymhellion prydles a dderbyniwyd.

Mae'r ased hawl i'w ddefnyddio yn cael ei ddibrisio ar ôl hynny drwy ddefnyddio'r dull llinell syth o'r dyddiad cychwyn hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased hawl i'w ddefnyddio neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sydd gynharach. Pennir oes ddefnyddiol amcangyfrifedig asedau hawl i'w defnyddio ar yr un sail â rhai eiddo, peiriannau ac offer eraill. Mae'r ased hawl i'w ddefnyddio yn cael ei leihau o bryd i'w gilydd gan golledion amhariad, os o gwbl, a'i addasu ar gyfer ail-fesuriadau penodol o rwymedigaeth y brydles.

Mae rhwymedigaeth y brydles yn cael ei mesur i ddechrau ar werth presennol y taliadau prydles sydd heb eu talu ar y dyddiad cychwyn, wedi'u disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles neu, os na ellir pennu'r gyfradd honno'n rhwydd, cyfradd fenthyca gynyddol y cwmni. Mae taliadau prydles sydd wedi'u cynnwys wrth fesur rhwymedigaeth y brydles yn cynnwys taliadau sefydlog, taliadau prydles amrywiol sy'n dibynnu ar fynegai neu gyfradd, symiau y disgwylir iddynt fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol, a chost unrhyw opsiynau y mae'r cwmni'n rhesymol sicr i'w harfer, fel y pris ymarfer o dan opsiwn prynu, taliadau prydles mewn cyfnod adnewyddu dewisol, neu gosbau am derfynu prydles yn gynnar.

Mesurir rhwymedigaeth y brydles ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Caiff ei ail fesur pan fydd newid yn y canlynol: taliadau prydles yn y dyfodol yn deillio o newid mewn mynegai neu gyfradd; amcangyfrif y cwmni o'r swm y disgwylir iddo fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol; neu asesiad y cwmni ynghylch a fydd yn arfer opsiwn prynu, ymestyn neu derfynu. Pan fydd rhwymedigaeth y brydles yn cael ei hail fesur yn y ffordd hwn, gwneir addasiad cyfatebol i swm cario'r ased hawl i'w ddefnyddio, neu caiff ei gofnodi fel elw neu golled os yw swm cario'r ased hawl i'w ddefnyddio wedi'i leihau i sero.

Mae'r cwmni wedi dewis peidio â chydnabod asedau hawl i'w defnyddio a rhwymedigaethau'r brydles ar gyfer prydlesi byr dymor ar beiriannau sydd â chyfnod prydles o 12 mis neu lai, neu ar gyfer prydlesi asedau gwerth isel gan gynnwys offer TG. Mae'r taliadau sy'n gysylltiedig â'r prydlesi hyn yn cael eu cydnabod fel elw neu golled ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

1.15 **Grantiau**

Mae grantiau'r Llywodraeth yn cael eu cydnabod pan fydd sicrwydd rhesymol y bydd amodau'r grant yn cael eu bodloni ac y bydd y grantiau'n cael eu derbyn.

Mae grantiau'r Llywodraeth sy'n ymwneud â chostau sydd eto i'w hysgwyddo yn cael eu gohirio a'u cydnabod yn y Datganiad Elw neu Golled dros y cyfnod angenrheidiol i'w paru â'r costau y bwriedir iddynt eu digolledu.

Mae grantiau a dderbynnir ar gyfer prynu offer cyfalaf yn cael eu credydu i gyfrif incwm gohiriedig a'u rhyddhau i'r Datganiad Elw neu Golled dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau dan sylw.

1.16 Trethiant

Mae'r gost am dreth gyfredol yn seiliedig ar y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn fel y'u haddaswyd ar gyfer eitemau na ellir eu hasesu neu eitemau na chaniateir. Fe'i cyfrifir drwy ddefnyddio cyfraddau sydd wedi'u deddfu neu eu deddfu'n sylweddol erbyn dyddiad y fantolen.

Rhoddir cyfrif am dreth ohiriedig drwy ddefnyddio dull rhwymedigaeth y fantolen mewn perthynas â gwahaniaethau dros dro sy'n deillio o wahaniaethau rhwng swm cario asedau a rhwymedigaethau yn y datganiadau ariannol a'r sail dreth gyfatebol a ddefnyddir wrth gyfrifo elw trethadwy. Mewn egwyddor, cydnabyddir rhwymedigaethau treth ohiriedig ar gyfer yr holl wahaniaethau trethadwy dros dro a chydnabyddir asedau treth gohiriedig i'r graddau y mae'n debygol y bydd elw trethadwy ar gael y gellir defnyddio gwahaniaethau didynnu dros dro yn eu herbyn.

Cyfrifir treth ohiriedig ar y cyfraddau y disgwylir iddynt fod yn berthnasol pan fydd yr ased neu'r rhwymedigaeth yn cael ei setlo. Codir neu gredydir treth ohiriedig yn y datganiad incwm, ac eithrio pan fo'n ymwneud ag eitemau a gredydwyd neu a godwyd yn uniongyrchol ar ecwiti, ac os felly ymdrinnir â'r dreth ohiriedig mewn ecwiti hefyd.

2 Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu allweddol

Wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r cwmni, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â'r swm cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill. Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau sylfaenol yn cael eu hadolygu'n barhaus. Cydnabyddir diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ynddo, os yw'r diwygiad yn effeithio ar y cyfnod hwnnw'n unig, neu yn y cyfnod adolygu a chyfnodau'r dyfodol os yw'r diwygiad yn effeithio ar gyfnodau presennol a chyfnodau'r dyfodol.

Amlinellir isod yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sydd â risg sylweddol o achosi addasiad sylweddol i swm cario asedau a rhwymedigaethau. Mae amcangyfrifon croniadau ar ddiwedd y flwyddyn wedi'u seilio ar waith a gwblhawyd neu nwyddau a dderbyniwyd ond heb eu hanfonebu.

Mae incwm cronedig mewn perthynas â'r prosiect Cyflymu wedi'i amcangyfrif yn seiliedig ar gostau a gafwyd ond heb eu hawlio eto. Cyfanswm hyn oedd £180,577 ar gyfer Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a £2,728,050 ar gyfer y 3 partner arall ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 (2021: £2,627,900). Mae cyflwyno hawliadau bellach wedi ailddechrau. Derbyniwyd estyniad dim cost i fis Rhagfyr 2022 gan WEFO ym mis Mawrth 2022 ac mae pob partner wedi llofnodi llythyr amrywiad safonol i dderbyn yr estyniad di-gost ym mis Ebrill 2022.

Roedd gweithredu IFRS 16 yn 2019/20 yn cynnwys elfen o amcangyfrif a barn. Cyfradd fenthyca gynyddrannol gyfartalog pwysol y prydlesai a gymhwyswyd i rwymedigaethau prydles a gydnabyddir yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol ar ddyddiad y cais cychwynnol oedd 5.5%. Mae cyfradd fenthyca gynyddrannol wedi'i chymhwyso i'r brydles a gafodd ei chyfrifo drwy ddefnyddio'r cynnyrch eiddo cyfartalog yn ardal yr eiddo. Ystyrir mai cyfnod prydles yr eiddo yw'r cyfnod a nodir yn y contract prydlesu sef 46 mis. Nid yw'r contract prydlesu yn cynnwys unrhyw opsiynau ymestyn neu opsiynau terfynu cynnar.

3. Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig a newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu

Safonau sydd dan sylw ond heb fod yn effeithiol eto

Ar ddyddiad awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn, roedd y Safonau a'r Dehongliadau canlynol, nad ydynt wedi'u cymhwyso eto yn y datganiadau ariannol hyn, yn cael eu cyhoeddi ond nid ydynt yn effeithiol eto (ac mewn rhai achosion heb eu mabwysiadu eto gan yr UE):

- IFRS 17 Cytundebau Yswiriant - yn effeithiol o 1/1/2023

Mae'r Cyfarwyddwyr yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau hyn yn y dyfodol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Cwmni.

4 Refeniw

	2022	2021
	£	£
Refeniw wedi'i ddadansoddi yn ôl dosbarth busnes	3,292,893	2,797,761
	-	117,547
Llywodraeth Cymru – Cyllid craidd	36,784	39,415
Prosiect Ecosystem Iechyd Digidol Cymru	41,.325	5,070
Ffioedd trwyddedi	3,106,208	2,608,136
Arall	128,290	266,522
WEFO – Prosiect Cyflymu		
Llywodraeth Cymru - Prosiect Cyflymu		
	6,605,500	5,834,478

	2022	2021
	£	£
Refeniw sylweddol arall		
Grantiau a dderbyniwyd - cyfalaf	-	1,464

Prosiect Cyflymu

Rhaglen tair blynedd oedd Cyflymu yn wreiddiol sy'n cefnogi trosi technoleg, cynhyrchion a gwasanaethau newydd, drwy brosiectau ymchwil a datblygu, i wella iechyd a gofal yng Nghymru. Fe'i cyflwynir drwy gydweithrediad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf fel Buddiolwr Arweiniol, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae'n cael ei ariannu ar y cyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) (dyfarniad ariannol o £12,339,771) a Llywodraeth Cymru (dyfarniad ariannol o £650,000) yn ogystal ag arian cyfatebol gan y partneriaid. Fel Buddiolwr Arweiniol, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gwneud hawliad ôl-weithredol yn erbyn dyfarniad ariannol ERDF ar ran yr holl bartneriaid ac yn talu'r gyfran briodol i bob partner ar ôl derbyn anfoneb briodol. Mae'r rhaglen wedi'i hymestyn heb unrhyw gost tan fis Rhagfyr 2022 a dyfarnwyd £200,000 pellach wrth Lywodraeth Cymru i'r rhaglen ym mis Ebrill 2022.

Mae effaith y prosiect Cyflymu i'w weld yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr (treuliau gweinyddol), nodyn 4 – refeniw, nodyn 13 – symiau derbyniadwy drwy fasnach a derbyniadau eraill (rhagdaliadau ac incwm cronedig) a nodyn 15 – symiau drwy fasnach a symiau taladwy eraill (croniadau).

Yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 mae incwm o £3,106,208 (2021 £2,608,163) wedi'i gydnabod yn y datganiadau ariannol gan WEFO y mae £2,973,064 (2021: £2,482,477) wedi'i dalu i bartneriaid. Cyfanswm yr incwm gwirioneddol sy'n ddyledus i'r cwmni oedd £133,144 (2021: £125,687).

5 Treuliau gweinyddol

Wedi'i gynnwys mewn treuliau gweinyddol:

	2022	2021
	£000	£000
Costau staff	2,239.7	2,101.1
Ail-ddosbarthu grant WEFO i gyrff partneriaid	2,973.1	2,482.5
Cyfleusterau/ costau llety	295.7	206.3
Costau TGCh	250.2	210.8
Costau rhedeg swyddfa	38.4	128.2
Marchnata	267.9	123.6
Digwyddiadau	17.8	1.8
Teithio	(0.8)	3.7
Dibrisiant ac Amorteiddiad	247.5	253.0
Cyllid a chydymffurfiaeth	247.2	283.2
Arall	2.3	1.6
Cyfanswm gwariant	**6,578.7**	**5,795.8**

Mae costau recriwtio a hyfforddiant wedi'u cynnwys yn y categori costau staff uchod.

6 Elw gweithredol

	2022	2021
	£	£
Elw gweithredol am y flwyddyn a nodir ar ôl codi tâl/credydu:		
Grantiau'r llywodraeth	-	(1,464)
Ffioedd sy'n daladwy i archwilydd y cwmni am archwilio datganiadau ariannol y cwmni	18,132	17,486
Dibrisiant eiddo, peiriannau ac offer	247,513	251,145
Amorteiddio asedau anniriaethol (wedi'u cynnwys o fewn costau gweinyddol)	-	1,902

7 Gweithwyr

Nifer misol cyfartalog y bobl (gan gynnwys cyfarwyddwyr) a gyflogwyd gan y cwmni yn ystod y flwyddyn oedd:

	2022	2021
	Rhif	Rhif
Cyfarwyddwyr	10	7
Gweinyddol	12	12
Marchnata a digwyddiadau	8	8
Secondiad	-	3
EIDC	1	2
Prif Swyddog Gweithredol	1	1
Arloesi a Mabwysiadu	16	10
Cyflymu	3	6
Cyfanswm	**51**	**49**

7 Gweithwyr

Roedd cyfanswm eu tâl yn cynnwys:

	2022	2021
	£	£
Tâl a chyflog	1,857,029	1,767,487
Costau nawdd cymdeithasol	186,106	177,981
Costau pensiwn	122,889	111,220
	2,166,024	**2,056,688**

8 Tâl Cyfarwyddwyr

	2022	2021
	£	£
Tâl am wasanaethau cymwys	70,069	60,835

Mae tâl Cyfarwyddwyr yn cynnwys cyflogau ac Yswiriant Gwladol ac mae wedi'i gynnwys yn y datgeliad cyflogau uchod.

Nid oedd unrhyw gyfarwyddwr wedi cronni buddion ymddeol yn y flwyddyn gyfredol na'r flwyddyn flaenorol.

9 Finance costs

	2022	2021
	£	£
Dad-ddirwyn llog prydles o ran gweithredu IFRS 16	26,833	40,071
	26,833	40,071

10 Treth incwm

Gellir cysoni'r tâl am y flwyddyn â'r (colled)/elw fesul y datganiad incwm fel a ganlyn:

	2022	2021
	£	£
(Colled)/elw cyn trethiant	-	76
Tâl treth disgwyliedig yn seiliedig ar gyfradd treth gorfforaeth o 19.00%	-	14
Effaith treuliau na ellir eu tynnu wrth bennu elw trethadwy	1,294,188	1,148,444
Incwm ddim yn drethadwy	(1,246,854)	(1,100,377)
Defnyddio colledion treth na chawsant eu cydnabod yn flaenorol	(307)	(364)
Dibrisiant ar asedau nad ydynt yn gymwys ar gyfer lwfansau treth	(47,027)	(47,717)
Tâl trethiant am y flwyddyn	**-**	**-**

7 Eiddo, peiriannau ac offer

	Tir ac adeiladau ar brydles	Gosodiadau a ffitiadau	Cyfanswm
	£	£	£
Cost			
Ar 1 Ebrill 2020	947,669	404,484	1,352,153
Ar 31 Mawrth 2021	947,669	404,484	1,352,153
Gwarediadau	-	(328,428)	(328,428)
Ar 31 Mawrth 2022	947,669	76,056	1,023,725
Dibrisiant ac amhariad wedi'u cronni			
Ar 1 Ebrill 2020	123,610	400,262	523,872
Cost am y flwyddyn	247,218	3,927	251,145
At 31 March 2021	370,828	404,189	775,017
Cost am y flwyddyn	247,218	295	247,513
Wedi'i ddileu wrth waredu	-	(328,428)	(328,428)
Ar 31 Mawrth 2022	618,046	76,056	694,102
Swm cario ymlaen			
Ar 31 Mawrth 2022	329,623	-	329,623
Ar 31 Mawrth 2021	576,841	295	577,136
Ar 31 Mawrth 2020	824,059	4,222	828,281

11 Eiddo, peiriannau ac offer

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys asedau hawl i'w ddefnyddio, fel a ganlyn:	2022	2021
Asedau hawl i'w ddefnyddio	£	£
Gwerthoedd net		
Eiddo	329,623	576,841
Cost dibrisiant ar gyfer y flwyddyn		
Eiddo	247,218	247,218

12 Asedau anniriaethol

	System Archebu Desg	Datblygu gwefan	Cyfanswm
	£	£	£
Cost			
Ar Ebrill 2020	23,050	19,950	43,000
Ar 31 Mawrth 2021	23,050	19,950	43,000
Gwarediadau	-	5,083	5,083
Ar 31 Mawrth 2022	23,050	25,033	48,083
Amorteiddiad ac amhariad			
Ar 1 Ebrill 2020	21,148	19,950	41,098
Cost am y flwyddyn	1,902	-	1,902
Ar 31 Mawrth 2021	23,050	19,950	43,000
Ar 31 Mawrth 2022	23,050	19,950	43,000
Swm cario ymlaen			
Ar 31 Mawrth 2022	-	5,083	5,083
Ar 31 Mawrth 2021	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2020	1,902	-	1,902

13 Symiau derbyniadwy drwy fasnach - risg credyd

Gwerth teg symiau derbyniadwy drwy fasnach

Mae'r cyfarwyddwyr o'r farn bod swm cario masnach a symiau derbyniadwy eraill tua'r un faint â'u gwerth teg. Nid amharir ar unrhyw falansau derbyniadwy sylweddol ar ddyddiad yr adroddiad olaf.

14 Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill

	2022	2021
	£	£
Swm derbyniadwy drwy fasnach	-	41,142
TAW y gellir ei adennill	18,789	-
Rhagdaliadau ac incwm wedi'i gronni	2,958,354	2,708,164
	2,977,143	2,749,306

Mae'r symiau derbyniadwy drwy fasnach a ddatgelir uchod yn cael eu dosbarthu fel benthyciadau a symiau derbyniadwy ac felly'n cael eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio.

O fewn rhagdaliadau ac incwm cronedig mae £2.7m (2021: £2.4m) sy'n gysylltiedig â gwariant partner Cyflymu y mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn hawlio ar eu rhan ac yn talu'r partner wrth dderbyn anfoneb priodol.

15 Swm taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill

	2022	2021
	£	£
Symiau taladwy drwy fasnach	441,461	83,183
Croniadau	5,676,671	2,978,268
Nawdd cymdeithaso a threthiant arall	-	1,100
Symiau taladwy eraill	19,353	18,864
	6,137,485	3,081,415

Wedi'i gynnwys o fewn symiau taladwy drwy fasnach a chroniadau mae £361,909 (2021: £248,335) yn ddyledus gan y Cwmni i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â rheoli cyfleusterau, trydan a gwaith atal sain a ailgodwyd ar y Cwmni (gweler nodyn 23 am fanylion pellach).

Wedi'i gynnwys o fewn Croniadau mae £2.7m (2021: £2.4m) sy'n gysylltiedig â gwariant partner Cyflymu y mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn hawlio ar eu rhan ac yn talu'r partner wrth dderbyn anfoneb priodol.

16 Rhwymedigaethau prydles

	2022	2021
Dadansoddiad aeddfedrwydd	£	£
O fewn un blwyddyn	261,910	247,925
Mewn dwy i bum mlynedd	90,546	352,456
Cyfanswm y rhwymedigaethau heb eu disgowntio	352,456	600,381

Mae rhwymedigaethau prydles yn cael eu dosbarthu ar sail y symiau y disgwylir iddynt gael eu setlo o fewn y 12 mis nesaf ac ar ôl mwy na 12 mis o'r dyddiad adrodd, fel a ganlyn:

	2022	2021
	£	£
Rhwymedigaethau cyfredol	261,910	247,925
Rhwymedigaethau anghyfredol	90,546	352,456
	352,456	600,381

Ar 31 Gorffennaf 2013, llofnododd Gweinidogion Cymru uwch gytundeb prydles 10 mlynedd gyda thrydydd parti mewn perthynas â'r eiddo y mae'r Cwmni yn ei feddiannu. Ar 4 Gorffennaf 2014, ymrwymodd Gweinidogion Cymru i gytundeb trwydded gyda'r un trydydd parti yn ymwneud â thanosod yr eiddo hwn i'r Cwmni. Ar yr un diwrnod, mae'r is-brydles rhwng Gweinidogion Cymru a'r Cwmni wedi'i lofnodi. Daeth yr is-brydles i ben ar 29 Mehefin 2018. Ar 7 Hydref 2019, cwblhawyd is-brydles newydd hyd at 25 Gorffennaf 2023 o dan IFRS 16. Gweler nodyn 2 am effeithiau IFRS 16.

Mae gwerth teg rhwymedigaethau prydles y cwmni fwy neu lai'n gyfartal i'w swm cario.

17 Refeniw gohiriedig

	2022	2021
	£	£
Yn deillio o grantiau'r llywodraeth	350,226	466,249
Yn deillio o hurio a refeniw arall	-	34,995
	350,226	501,2444

~~Disgwylir i'r holl refeniw gohiriedig gael ei setlo o fewn 12 mis i'r dyddiad adrodd.~~

18 Cynlluniau budd-daliadau ymddeol

Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig
Mae'r cwmni'n gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar gyfer pob gweithiwr cymwys. Delir asedau'r cynllun ar wahân i rai'r cwmni mewn cronfa a weinyddir yn annibynnol. Cyfanswm y costau a godir ar incwm mewn perthynas â chynlluniau cyfraniadau diffiniedig yw £122,889 (2021: £111,220).

19 Enillion a gadwyd

	2022	2021
	£	£
Ar ddechrau'r flwyddyn	12,259	12,183
Elw ar gyfer y flwyddyn	-	76
Ar ddiwedd y flwyddyn	12,259	12,259

20 Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2022 (2021: £nil).

21 Rheoli risg cyfalaf

Nid yw'r cwmni'n ddarostyngedig i unrhyw ofynion cyfalaf a osodir yn allanol.

22 Digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd

Awdurdodwyd y Datganiadau Ariannol i'w cyhoeddi ar 27/07/2022. Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i ddiwygio'r Datganiadau Ariannol ar ôl eu cyhoeddi.

23 Trafodion partïon cysylltiedig

Tâl personél rheoli allweddol

Mae tâl personél rheoli allweddol, gan gynnwys cyfarwyddwyr, wedi'i nodi isod yn ei gyfanrwydd ar gyfer pob un o'r categorïau a nodir yn IAS 24 Datgeliadau Partïon Cysylltiedig.

	2022	2021
	£	£
Buddion byr dymor i weithwyr	70,069	60,835
	70,069	60,835

Mae'r cwmni yn is-gwmni a reolir yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru, ac felly ystyrir Llywodraeth Cymru fel parti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, o gyllid craidd a £128,290 o incwm prosiect Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflymu ac EIDC (2021: £2,797,761 o gyllid craidd a £385,533 o incwm prosiect Llywodraeth Cymru). Yn ystod y flwyddyn, anfonebodd Llywodraeth Cymru £788,373 ar gyfer gwasanaethau a ddarparwyd, gan gynnwys cost rhent, taliadau gwasanaeth, rheoli cyfleusterau a'r wefan (2021: £476,311). Ar 31 Mawrth 2022, roedd arno'r cwmni £361,909 i Lywodraeth Cymru (2021: £274,231) mewn perthynas â rheoli cyfleusterau, trydan a gwaith atal sain a ailgodwyd ar y Cwmni (Gweler nodyn 15).

Mae gan ddau gyfarwyddwr ddiddordeb penodol mewn Llywodraeth Cymru. Chris Martin yw Cadeirydd Anweithredol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ESRN ac aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Thâl. Yr Athro Haimish Laing yw Is Gadeirydd Gwasanaethau Digidol Llywodraeth Cymru i gleifion a Bwrdd y Rhaglen Gyhoeddus, a'r Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol (secondiad o Brifysgol Abertawe).

Mae'r Athro Haimish Laing yn athro ym Mhrifysgol Abertawe. Mae Victoria Bates yn gysylltiedig â'r Brifysgol o fewn Addysg Weithredol Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werthoedd. Dyfarnwyd doethuriaeth er anrhydedd i Chris Martin wrth y Brifysgol. Yn ystod y flwyddyn, anfonebodd Prifysgol Abertawe y cwmni £221,735 (2021: £687,333) a chafodd y cwmni incwm gan brifysgol o £nil (2021: £23,330. Roedd arno'r cwmni £75,603 (2021: £182,611) i'r Brifysgol a chafodd y cwmni incwm gan brifysgol o £nil (2021: £27,996) ar ddiwedd y flwyddyn. Cyfanswm trafodion incwm a gwariant Cyflymu gyda'r Brifysgol yn ystod y flwyddyn oedd £736,769 (2021: £1,022,802). Mae croniad a gwerth incwm cronedig wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol ar gyfer y symiau hyn

Mrs C O'Brien yw Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Derbyniwyd anfonebau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau oddi wrth Ymddiriedolaeth GIG Felindre gwerth £nil (2021: £nil). Anfonebwyd Ymddiriedolaeth GIG Felindre am £47,417 (2021: £38,275) am wasanaethau a gyflenwyd gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ystod y flwyddyn ac roedd arno £nil (2021: £228) ar ddiwedd y flwyddyn.

Perthynas i wraig Peter Max yw cyfranddaliwr mwyafrif EST Ltd. Derbyniwyd anfonebau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau oddi wrth EST gwerth £25,633 (2021: £85,516). Nid oedd unrhyw symiau yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol (2021: £5,293).

Len Richards oedd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (tan Medi 2021) ac mae'r Athro Syr Mansel Aylward yn gynghorydd arbenigol i'r bwrdd iechyd. Derbyniwyd anfonebau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau oddi wrth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gwerth £13,406 (2021: £27,500). Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol na diwedd y flwyddyn flaenorol.

Mae Len Richards yn aelod o Gyngor Prifysgol Caerdydd ac mae'r Athro Syr Mansel Aylward yn Athro Addysg Iechyd ac yn Gynghorydd Arbennig i Is-Ganghellor. Mae Prifysgol Caerdydd yn rhan o'r rhaglen Cyflymu gyda'r cwmni. Cyfanswm trafodion incwm a gwariant Cyflymu yn ystod y flwyddyn oedd £1,290,317 (2021: £898,953). Mae croniad a gwerth incwm cronedig wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol ar gyfer y symiau hyn.

24 Parti llywodraethol

Gweinidogion Cymru sydd â rheolaeth o'r Cwmni yn y pen draw, fel yr unig aelod.

25 Busnes Gweithredol

Wrth fabwysiadu'r sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r Datganiadau Ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried y gweithgareddau busnes yn ogystal â phrif risgiau ac ansicrwydd y Cwmni fel y nodir yn y gofrestr risg.

Er bod gan y Cwmni gyllideb wedi'i chadarnhau ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023, disgwylir i gytundeb ariannu hirdymor gael ei sicrhau ar ôl y dyddiad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi addo cefnogaeth barhaus i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ac yn ymwneud yn agos â datblygu strategaeth a chyfeiriad hirdymor y Cwmni.

26 Cyfalaf Cyfranddaliadau

Mae'r Cwmni yn gyfyngedig trwy warant gyda Gweinidogion Cymru yn cytuno i gyfrannu y swm o £1 os digwydd i'r Cwmni gael ei ddirwyn i ben.

27 Arian parod a gynhyrchir o weithrediadau

	2022	2021
	£	£
Elw ar gyfer y flwyddyn ar ôl treth	-	76
Addasiadau ar gyfer:		
Costau cyllid	26,883	40,071
Amorteiddio ac amhariad ar asedau anniriaethol	-	1,902
Dibrisiant ac amhariad eiddo, peiriannau ac offer	247,513	251,145
Symudiadau mewn cyfalaf gweithio:		
Cynnydd mewn symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill	(227,837)	(280,024)
Cynnydd mewn symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill	3,056,070	286,949
(Gostyngiad)/cynnydd yn y refeniw gohiriedig sy'n weddill	(151,018)	159,659
Arian parod a gynhyrchir o weithrediadau	2,951,561	459,778

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

lshubwales.com/cy
helo@hwbgbcymru.com
029 2046 7030